# heddwch

gaeaf 2004-5
rhif 34
am ddim (neu gyfraniad)

## cylchgrawn CND Cymru




graffig: Dai Owen

# gobaith

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**

## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**

**Golygydd:**
Jill Stallard
(01550) 750 260
jill@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**'Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkite@onyxnet.co.uk

# Uchelgyhuddo Tony Blair

**Camarwain, dweud celwydd, neu dwyllo, pa derm bynnag sydd orau gennych, yn y pen draw, yr un yw'r ystyr – sef bod camargraff wedi cael ei roi yn fwriadol. Bydd yr adroddiad a gomisiynwyd gennym dros yr haf, *A Case to Answer*, yn cadarnhau fod Tony Blair yn euog o'r cwbl uchod.**

Mae'r adroddiad yn rhestru'n awdurdodol y nifer fawr o achlysuron pan gamarweiniodd Tony Blair y Senedd ac, yn bwysicach, y cyhoedd, ynglyn ag arfau dinistr torfol (ADT) Irac. Mae'n cyflwyno tystiolaeth sy'n profi iddo roi camargraff i ni o'i resymau dros fynd i ryfel, ac mae'n rhestru'r llu o achlysuron pan roddodd gamargraff i ni o ba mor ddibynadwy oedd y wybodaeth yr oedd yn seilio ei honiadau pell-gyrhaeddol arni.

Roedd naws o anghrediniaeth yn y Senedd ar y 18fed o Fawrth 2003 pan ofynnwyd i ni bleidleisio ar gynnig a fyddai'n arwain at oresgyniad Irac, ac am unwaith, roedd pryderon y Senedd yn gwir adlewyrchu pryderon y cyhoedd yn gyffredinol. Y gwahaniaeth rhwng hynny a nawr, diolch i wybodaeth a ddatgelwyd yn Arolwg Butler a sawl ffynhonnell wybodaeth arall sydd wedi dod i glawr yn y cyfryngau dros y misoedd diwethaf, yw bod y teimlad o anghrediniaeth wedi troi'n sicrwydd diamheuol. Yn awr, mae gennym dystiolaeth bendant i brofi fod Tony Blair *yn gwybod* ei fod yn camarwain, yn dweud celwydd ac yn twyllo, a'r unig stôr o unryw beth rydym wedi ei ddarganfod yw stôr o dystiolaeth bellach o'i dwyll.
Sut allai dyn mor ddeallus ac mewn swydd mor aruchel â Tony Blair ddehongli adroddiadau gan y gwasanaethau cudd-ymchwil fod "Saddam heb lwyddo i fygwth ei gymdogion o ddifrif", fel "bod gan Saddam ddigon o arfau cemegol a biolegol o hyd i ddifa holl ranbarth y Gwlff"? A sut y gallai fod wedi datgan yn 2002 fod gan Irac "storfeydd mawr o arfau cemegol a biolegol" tra'r oedd asesiad y cyd-bwyllgor cudd-ymchwil ar y pryd yn dweud "efallai bod Irac wedi cuddio niferoedd bach o gyfryngau ac arfau"?
Yn bwysicach, sut y gall gwladwriaeth ymddiried ei dyfodol a'i phobl i ddwylo'r apolegydd diymddiheuriad yma dros yr UD?
Mae *A Case to Answer* yn ystyried 26 datganiad camarweiniol pellach gan Tony Blair yn y cyfnod cyn ac yn ystod y rhyfel yn Irac ac ers hynny, ac mae pob un yn cadarhau ei fod wedi rhoi camargraff yn fwriadol.
Mae'r dystiolaeth yn erbyn y Prif Weinidog yn ddiamwys, ac eto mae'r Prif Weinidog a'r llywodraeth yn gwrthod caniatáu i ni, fel Aelodau Seneddol, drafod y mater. Dywedir wrthym dro ar ôl tro y bu pedwar ymchwiliad ers y rhyfel yn erbyn Irac, er nad edrychodd yr un o'r rheini ar y gwir fater dan sylw, sef ymddygiad personol y Prif Weinidog. Pan geisiwn godi twyll y Prif iWeinidog ar lawr y Ty, mae'r Llefarydd yn dyfarnu ein bod allan o drefn.

Wrth i Tony Blair a Geoff Hoon ymgrymu i ddymuniad etholiadol Bush, a danfon 850 o filwyr Prydain i mewn i'r triongl marwolaeth i ymladd o dan reolaeth uniongyrchol yr UD, fu erioed cyn lleied o ymddiriedaeth yn y Prif Weinidog. Ac eto, ei ymateb yw bygwth ei fod yn mynd i reoli am bum mlynedd arall, sy'n sarhau democratiaeth, yn cynyddu difaterwch, ac yn darostwng gwleidyddiaeth i lefel is byth. Fel Aelodau Seneddol, ni allwn ganiatáu i Weinidog, yn enwedig y Prif Weinidog, barhau i gamarwain i'r fath raddau, dros fater mor ddifrifol â rhyfel, un sydd wedi achosi marwolaeth mwy na 12,000 o sifiliaid Iracaidd diniwed. Dyna pam rydym wedi troi at uchelgyhuddo; dyma'r unig arf gwleidyddol sydd ar ôl gennym. Gall Tony Blair osgoi cael ei uchelgyhuddo drwy ymddiswyddo. Os na wna ymddiswyddo, yna mae'n rhaid ei uchelgyhuddo a'i ddiarddel o'i swydd, swydd a llywodraeth y mae wedi dwyn y fath anfri arnynt.




ffoto: keith morris/redsnapper

*Aberystwyth*

**Adam Price, AS Plaid Cymru dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr**

heddweithredu

**Mae grwp gwirioneddol drawsbleidiol o ASau yn gweithio tuag at y nod honno. Gallwch gael manylion am yr ymgyrch a darllen yr adroddiad, *A Case to Answer*, ar www.ImpeachBlair.org Gallwch chwarae rhan weithredol: cofrestrwch eich cefnogaeth ar lein; anogwch eich AS i gefnogi'r uchelgyhuddiad; sgrifennwch at y papurau. Gallwch hefyd ymgyrchu'n lleol, fel sy'n digwydd yng Ngheredigion drwy Rwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth – cysylltwch â Kelvin Mason ar (01970) 610 185 neu kelvin.mason@tiscali.co.uk am syniadau ac i gael gwybod sut i helpu.**
**I brynu copi o'r gyfrol, *'A Case to Answer'*, sy'n cynnwys yr adroddiad ar y posibilrwydd o uchelgyhuddo'r Prif Weinidog a'r farn gyfreithiol gan yr Athro Conor Gearty a Rabinder Singh QC, o Matrix, ymwelwch â www.impeachBlair.org**

# *'Sŵn y gwynt sy'n chwythu'*


# 'Llong danfor' Trident yn dwyn gwarchae ar Downing Street




**Ar yr 11eg o Hydref, aeth gweithredwyr dros heddwch o bob rhan o Brydain â model anferth o long danfor Trident i bencadlys y llywodraeth Brydeinig i herio Llafur i roi'r gorau i'w harfau dinistr torfol (ADT) ac ufuddhau yn llawn i'w dyletswyddau o dan gytundebau rhyngwladol. Clymodd 30 o weithredwyr o Trident Ploughshares a 'Theatre of War' eu hunain wrth eu model 45-troedfedd o long danfor Trident, gan erfyn ar yr heddlu i gynnal y gyfraith ryngwladol a diarfogi'r llong danfor ar unwaith, yn unol â'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY).**

Cyflwynodd cefnogwyr Trident Ploughshares, yn cynnwys Aelodau Seneddol, lythyr i'r Prif Weinidog, Tony Blair, gan alw arno i sicrhau fod Prydain yn gwrthod adnewyddu'r cytundeb cydweithrediad niwclear 1958 (y Cytundeb Cyd-Amddiffyn - CCA) gyda'r Unol Daleithau, ac y bydd yn ufuddhau'n llawn i'r CAY sy'n gofyn i Brydain gymryd camau i gychwyn ar ddiarfogi niwclear. (Byddai adnewyddu'r CCA, i'r gwrthwyneb, yn golygu y byddai Prydain yn parhau i weithio gyda chenedl niwclear fwya'r byd, UDA, sy'n dangos dim arwydd o gwbl ei bod am gychwyn diarfogi neu hyd yn oed ystyried hynny.) Mae'r llythyr yn annog y Prif Weinidog i gynnal y gyfraith ryngwladol, gwrthod adnewyddu'r cytundeb, a chael gwared o'r system arfau niwclear Trident. Mae hyn yn sgîl cyhoeddi barn gyfreithiol awdurdodol gan Siambr Matrix, sy'n dod i'r casgliad y bydd Prydain yn tramgwyddo'r CAY os bydd yn parhau yn rhan o'r CCA y mae'r ddwy ochr yn bwriadu ei adnewyddu eleni.

Meddai llefarydd Trident Ploughshares, Angie Zelter, "Pan fydd dau gytundeb yn anghymharus, rhaid i un ildio. Ni all Prydain bregethu ynglyn ag ymlediad tra'n cynllunio i ymestyn ei harfogaeth ei hun. Rhaid i'r cydweithrediad niwclear gyda'r Unol Daleithiau ddod i ben, ac mae'n rhaid i'r ddwy wlad wynebu eu cyfrifoldebau o dan y CAY."




Mae'r protestwyr yn gobeithio ei gwneud hi'n wleidyddol amhosibl i'r llywodraeth aros yn y busnes arfau niwclear heb o leiaf gael trafodaeth gyhoeddus a Seneddol ddifrifol ar y cwestiwn a ddylai Prydain dramgwyddo'r CAY a dal gafael ar ei harfau niwclear anghyfreithlon ai peidio.

Tra dangoswyd yn bendant nad oes gan Irac unrhyw arfau dinistr torfol, mae gan Brydain ddigonedd – gan anwybyddu cyfraith ryngwladol ag oblygiadau cytundebol – dydy hi'n gwneud dim byd ynglyn â chael gwared ohonynt. I'r gwrthwyneb, mae'n cydweithio â llywodraeth adweithiol Bush i ehangu ei harfau dinistr torfol.

## heddweithredu:

***Ymrwymwch i Trident Ploughshares.**

***Dewch i'r gweithredoedd torfol.**

Mae croeso i bawb sydd am brotestio'n ddi-drais yn erbyn Trident i ymuno â gweithredoedd torfol. Yn ogystal â rhoi llawer o gefnogaeth ac anogaeth i'r rhai sy'n cael eu restio, efallai y byddwch am ystyried ymuno yn y weithred. Os felly, gellwch fynychu cwrs hyfforddiant byr – a mwynhau ychydig o oriau yn dysgu beth yn union i'w ddisgwyl.

***Rhowch gyfraniad a chodwch arian**

Mae angen arian ymgyrchu beunydd. Danfonwch gyfraniadau (sieciau'n daladwy i 'Trident Ploughshares 2000') i'r cyfeiriad isod, os gwlewch yn dda.

***Deisebau o Gefnogaeth i Trident Ploughshares.** Mae deisebau cefnogaeth ar gael i uniugolion, mudiadau, gwleidyddion ac ati eu harwyddo Cysyllter â Trident Ploughshares am fwy o wybodaeth.

**Cysyllter â: Trident Ploughshares, 42-46 Bethel St, Norwich NR2 1NR (0845) 45 88 364 info@tridentploughshares.org www.tridentploughshares.org**

gwald belg

# Bomsbotio

**Ar yr 11eg o Hydref, digwyddodd y weithred gyntaf mewn cyfres o weithredoedd "Bomsbotio Bach" yng nghanolfan arfau niwclear Kleine Brogel yng ngogledd-ddwyrain Gwlad Belg. Trefnwyd y weithred gan yr ymgyrch Bomsbotio a Forum voor Vredesactie, ac roedd y gweithredwyr yn cynrychioli mudiadau Belgaidd, yn cynnwys Greenpeace, ac Oxfam. Mae'r ymgyrch Bomsbotio yn defnyddio gweithredu uniongyrchol di-drais i atal polisïau arfau niwclear Gwlad Belg a NATO.**




Dechreuodd y weithred ychydig cyn 8am, pan aeth deg cynrychiolydd o fudiadau an-lywodraethol (NGO) Gwlad Belg (11.11.11 – mudiad ambarél yr NGOs datblygu, Greenpeace Gwlad Belg, Jeugdbond voor Natuurstudie en Milieubescherming (JNM), Netwerk, Oxfam Solidariteit, For Mother Earth, a Forum voor Vredesactie) i mewn i'r gwersyll a cherdded tuag at y llain glanio. Yno, taenwyd disgiau bychain coch ar y llain glanio i atal yr awyrennau rhag gallu esgyn. Mae peilotiaid yn Kleine Brogel yn hyfforddi bob dydd ar gyfer defnyddio arfau niwclear, sydd yn baratoad ar gyfer troseddau rhyfel. Roedd y gwrthrychau a osodwyd ar y llain glanio yn dwyn enwau'r 95 mudiad sydd wedi arwyddo'r Datganiad o Gefnogaeth i'r ymgyrch, er mwyn dangos y gefnogaeth eang sydd gan ymgyrch Bomsbotio.

Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, mae rhai miloedd o bobl wedi cymryd rhan mewn gweithredoedd Bomsbotio yn Kleine Brogel. Gweithred o anufudd-dod sifil heb rybudd oedd y weithred "Bomsbotio Bach", i atal paratoi troseddau rhyfel. Hon oedd y gyntaf mewn cyfres a fydd yn digwydd yn ystod y misoedd sydd i ddod. Cafodd y gweithredwyr eu restio a'u symud oddi ar y llain glanio o fewn awr, a'u rhyddhau yn ddiweddarach yn y dydd.


Ar y 27ain o Dachwedd, bydd y gefnogaeth i'r gweithredoedd hyn yn cael ei hamlygu mewn dydd "Pawb yn Fomsbotiwr". Bydd pobl ledled Gwlad Belg yn ymweld â'u gorsaf heddlu leol er mwyn gwneud cwyn swyddogol ynglyn â phresenoldeb arfau niwclear a chyfranogaeth llywodraeth Gwlad Belg yng nghynlluniau niwclear NATO. "Am fod y llwyodraeth hyd yma wedi methu gweithredu i atal ei bolisi niwclear anghyfreithlon, mae'n rhaid i ni gymryd camau ein hunain i atal y troseddau hyn yn erbyn y ddynoliaeth. Rydym oll yn Fomsbotwyr, ac yn datgan mai ni hefyd sy'n gyfrifol am y gweithredoedd Bomsbotio â'r bwriad o atal troseddau rhyfel" meddai llefarydd ar ran ymgyrch Bomsbotio. Ar yr 16eg o Ebrill 2005, bydd y weithred "Bomsbotio Mawr Iawn" yn digwydd. Yn union cyn Cynhadledd Adolygu'r CAY (Mai 2005) bydd gweithred Bomsbotio anferth, ryngwladol yn y tri lle yng Ngwlad Belg sy'n gysylltiedig ag arfau niwclear: pencadlys NATO ym Mrwsel, SHAPE (pencadlys milwrol NATO) ym Mons, a'r ganolfan arfau niwclear yn Kleine Brogel.

Mwy o wybodaeth: www.bomspotting.be

# Anrhydeddu Waldo

## 1904 - 1971

Ganed Waldo Williams gan mlynedd union yn ôl yn Hwlfforddd. Nid tan y symudodd y teulu i Fynachlog-ddu ar lethrau deheuol Mynydd Preseli, lle'r aeth Waldo i'r ysgol leol yn saith mlwydd oed, y daeth yn rhugl yn y Gymraeg. Ar ôl cwblhau gradd yn y Saesneg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, dychwelodd i Sir Benfro i fynd yn athro ac yn fardd. Cawsai Waldo ei fagu ar aelwyd radicalaidd grefyddol gan rieni o heddychwyr a oedd wedi gwrthwynebu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn gryf. Aeth Waldo ei hun yn wrthwynebydd cydwybodol yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a chafodd ei garcharu am ei safiad yn erbyn rhyfel Korea ym 1950. Mynegodd Waldo ei arswyd at ryfel yn glir yng ngherddi'r cyfnod hwn – yn enwedig Y Tangnefeddwyr, sy'n disgrifio "Abertawe'n fflam".



Mae debyg mai Waldo yw'r unig fardd Cymraeg sydd wedi cael ei ddyfynnu gan Archesgob Caergaint erioed. Mewn ymgais i ddiffinio 'beth yw bywyd' yn ystod pregeth mewn cynhadledd ryngwladol yn Efrog Newydd yn 2003, dywedodd Rowan Williams fod y bardd o Gymro mor agos ati ag unrhyw un at ddiffinio hyn, yn ei gerdd Pa Beth Yw Dyn, pan sgrifennodd 'Cael neuadd fawr/ Rhwng cyfyng furiau'.

Ym mis Medi, cynhaliwyd wythnos o ddigwyddiadau yn sir Benfro a rhannau eraill o Gymru i goffáu bywyd Waldo, yn cynnwys darlithiau cyhoeddus, hel atgofion am Waldo gan ei ffrindiau a'i deulu, perfformio drama, a darlleniadau o'i waith.

# 'No More Hiroshimas' Cerddi a Chyfieithiadau

## James Kirkup

**Weithiau pan fyddwn yn mynychu digwyddiadau sy'n coffáu Hiroshima a Nagasaki – lle byddwn yn peintio cysgodion, yn hwylio canhwyllau, yn gwneud crehyrod papur – cawn ein gadael yn fud, heb fedru ffurfio geiriau a allai fynegi ein teimlad o arswyd, atgasedd a thristwch dwfn. Mae'r gyfrol hon o gerddi clir a hawdd eu deall gan James Kirkup yn mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at lenwi'r mudandod trist hwnnw.**

Meddai Kirkup yn ei ragair, ' My A-Bomb Biography': *"Mae gwreiddiau'r holl gerddi hyn mewn un prynhawn hwyr yn hostel 'War Ag' y gweithwyr tir y tu allan i Ponteland, Northumberland. Roedd y criw o weithwyr newydd ddychwelyd ar ôl diwrnod chwyslyd arall o "lafur ar y tir" – draenio a thorri ffosydd. Wrth i ni fynd i mewn i'r hostel, cawsom y newyddion fod y Bom Atomig Americanaidd cyntaf wedi cael ei ollwng . . . ar ddinas Hiroshima. Dyna'r tro cyntaf i ni glywed am y lle a fyddai'n mynd yn symbol hollgyffredinol o annynoldeb dyn i'w gyd-ddyn."*

*Pe* bai angen hynny, mae'r cerddi hyn yn atgof clir o'r ffordd y mae'r annynoldeb hwnnw'n parhau.

Nid yw pob un o'r 29 o gerddi'n ymdrin yn uniongyrchol â gollwng y bomiau niwclear ar Hiroshima a Nagasaki, ond drwy gyfosod cerddi eraill gyda'r rhai ar y pwnc hwn, mae Kirkup yn gwneud y cysylltiadau rhwng paratoadau rhyfel ac anghyfiawnder ehangach. Cyfieithiadau yw pedair o'r cerddi o 'Bedair o Gerddi Bom Atomig' gan Toge Sankichi, sy'n annerch dioddefwyr y bomiau'n uniongyrchol tra'n disgrifio'u tynged i ni gydag angerdd creulon, caled.


Fel llawer ohonom, mae Kirkup yn ddig. Mae pob cerdd yn 'No More Hiroshimas' yn ffyrnig ac yn onest; mae'r iaith yn syml ac yn ddiaddurn. Mae'r neges, sy'n llefaru enw'r gwaith a wnawn, mor ddiamwys â'r teitl.

**Jill Stallard**

**No More Hiroshimas James Kirkup 2004 ISBN 0 85 124 689 3 Spokesman Books £6.99**

# Hwylio canhwyllau, mynd am bicnic a phlannu coed i goffáu Hiroshima a Nagasaki

**Ym mis Awst, cynhaliwyd digwyddiadau ledled y byd i goffáu dioddefwyr ymosodiad yr UD â bomiau niwclear ar ddinasoedd Hiroshima a Nagasaki yn Japan. Pan ffrwydrodd y bomiau ar y 6ed a'r 9fed o Awst 1945, bu 250,000 o sifiliaid farw ar unwaith, ac amcangyfrifir fod rhyw 400,000 hibakusha (dioddefwr a oroesodd) yn dal yn fyw, gyda miloedd yn dal i farw bob blwyddyn o'r effeithiau. Yng Nghymru, hwyliwyd canhwyllau ar Lyn Parc y Rhath gydag ymwelwyr o Irac, a chynhaliwyd digwyddiadau eraill yng Nhasnewydd, Trefdraeth, Wrecsam, Llanrhaeadr ym Mochnant, Abertawe a Llandrindod, lle plannodd y grup CND ei 23ain coeden goffa i goffáu Hiroshima a Nagasaki.**



ffoto: wendy lewis

**Llyn Parc y Rhath 2004**

# Ffermydd Cymru'n dal i ddioddef effeithiau Chernobyl

Wrth gofio Chernobyl ar ddydd Hiroshima, galwodd y *Farmer's Guardian* am ddulliau di-niwclear o gynhyrchu ynni, gan atgoffa darllenwyr fod 359 o ffermydd yng ngogledd Cymru yn dal i ddioddef effeithiau ffrwydrad adweithydd niwclear Chernobyl ym mis Ebrill 1986, ynghyd â naw yn Lloegr a 14 yn yr Alban. Mae rhyw 50,000 hectar yn Eryri yn dal i ddioddef effeithiau gronynau ymbelydrol a gariwyd gan y gwynt yn sgîl y drychineb. Mae'n rhaid gwneud profion ar bob dafad sydd wedi bod yn pori ar y mynydd cyn eu gwerthu, i weld beth yw'r cyfrif becquerel. Os yw'n uwch na'r lefel 'ddiogel', cânt eu marcio â phaent coch a'u gadael i bori ar dir is 'glân' nes i'r ymbelydredd ddiflannu o'u cyrff.

# Cyfleoedd ar gyfer heddwch a chyfiawnder

Fel y gwyr ymgyrchwyr dros heddwch a diarfogi yn iawn, bydd Cynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad yn digwydd yn 2005. O dan y Cytundeb hwn, mae Prydain wedi gwneud 'ymgymeriad diamwys . . . i gael gwared yn llwyr o'i harfogaeth niwclear' ac mae'r gynhadledd yn cynnig cyfle arall i alw sylw at gelwydd y llywodraeth Brydeinig a galw am ddiarfogi niwclear. 2005 fydd trigain mlwyddiant cyflafan niwclear Hiroshima a Nagasaki hefyd.

Yn ogystal ag etholiad cyffredinol ym Mhrydain, o bosib, bydd nifer o ddigwyddiadau pwysig ag oblygiadau ar gyfer heddwch a chyfiawnder yn digwydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnig cyfleoedd i ni gyflwyno ein hagenda a dwyn pwysau ar y rhai mewn pwer:

- Ebrill – Cyhoeddi Adroddiad y Comisiwn ar gyfer Affrica
- Gorff – Prydain yn cynnal Uwchgynhadledd y G8 yn yr Alban
- Gorff – Ugainmlwyddiant Live Aid
- Gorff – Rhagfyr Prydain yn dal llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd
- Medi – Uwchgynhadledd Arbennig Nodau Datblygu Mileniwn y CU

Yn yr hydref, cynhaliodd Cynefin y Werin, rhwydwaith heddwch a chyfiawnder Cymru, gyfarfod i ddod â gweithredwyr ynghyd i drafod y cyfleoedd hyn. Eglurodd siaradwyr sut mae globaleiddio a phwer llywodraethau a chorfforaethau yn gwneud heddwch yn amhosibl ac yn tramgwyddo hawliau dynol ac achosi anghyfiawnderau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ym mhedwar ban y byd.

**Ar ôl trafodaeth, lluniwyd cynllun gweithredu ar gyfer 2005:**

* Cynhyrchu maniffesto – 'Gweledigaeth 2020 Cymru' a fydd yn mynnu heddwch a chyfiawnder, ac atebolrwydd mewn masnach, yr amgylchedd a gwleidyddiaeth. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol, cynrychiolwyr etholedig eraill a darpar-ymgeiswyr seneddol.

* Cynhyrchu calendr, yn manylu dyddiadau allweddol 2005, a ddanfonir at Aelodau Cynulliad, ASau, a mudiadau a grwpiau pwyso yng Nghymru, i'n hatgoffa ar hyd y flwyddyn gron o'n gofynion ac o bwysigrwydd 2005.

* Adeiladu cefnogaeth yng Ngymru i'n gofynion, yn ystod y cyfnod cyn Uwchgynhadledd y G8, gyda 'sioe deithiol' ac adnoddau i gynyddu ymwybyddiaeth. Roedd llawer o bobl yn eiddgar i ymuno â'r 100,000 a mwy o brotestwyr a ddisgwylir yng Nghaeredin ar Orffennaf yr ail.

* Dwyn pwysau ar gynrychiolwyr etholedig ynglyn â GATS – cytundeb rhyngwladol ar fasnach sy'n gosod elw o flaen anghenion a hawliau sylfaenol pobl. Disgwylir penderfyniad ar GATS yn 2005.

heddweithredu: **I ymuno â rhwydwaith Cynefin y Werin, cysyllter â jamesmaiden@wcia.org.uk (02920) 228 549 www.cynefinywerin.org.uk**
**Mwy o wybodaeth ynglwn â 2005: www.makepovertyhistory.org**

# 2005 – Blwyddyn troi tlodi'n hen hanes?

**Ydych chi wedi clywed? Dyma'r un fawr. Efallai mae'r flwyddyn nesaf fydd ein cyfle i newid y byd, unwaith ac am byth. Mae Prydain yn mynd i fod yn chwarae'i rhan bwysicaf ar lwyfan y byd ers blynyddoedd, gyda chyfuniad na welwyd ei fath o'r blaen o ddigwyddiau fydd yn dod â dylanwad gwleidyddol i ni. I bawb sydd am weld byd tecach, mwy heddychlon, a therfyn ar yr anghydraddoldeb beunyddiol a chynyddol a welwn ar hyn o bryd, efallai mai dyma'r foment y bydd pethau'n newid cyfeiriad.**

### Y G8 a'r Undeb Ewropeaidd

Yn 2005, Prydain fydd yn cadeirio'r G8 – yr uwch-gynhadledd hunan-ddetholedig o wyth o arweinwyr y byd – a hi hefyd fydd yn llywyddu ar yr Undeb Ewropeaidd am chwe mis, cyfle i'r llywodraeth osod yr agenda ar gyfer y cyfoethog a'r pwerus. Ond pe gellid gwthio yn y ffordd iawn, mae posibilrwydd y gellid cael y byd i weithio ar y cyd yn erbyn tlodi, yn hytrach nag o blaid rhyfel neu rym economaidd.

### Dydy rhoi plaster ar y briw ddim yn ddigon

Yn yr esgyll, mae'r asiantaethau cymorth mawr, nifer o enwogion y byd adloniant, ac eraill yn gweithio i adeiladu cefnogaeth eang i weithredu i 'Droi Tlodi'n Hen Hanes'. Dylai hon fod yn fenter a fydd yn arwain at newid parhaol – yn hytrach na rhoi plaster ar y briw, fel y gwnaeth y cymorth argyfwng a ddarparwyd gan ddigwyddiadau Band Aid yn yr 80au. Y nod yw ymgyrchu ymhlith cynulleidfaoedd newydd ac adeiladu cefnogaeth anferth i bwyso ar y llywodraeth i arwain y ffordd mewn gweithio o blaid cyfiawnder mewn masnach, darparu mwy o gymorth o well ansawdd, a llwyr ddileu'r rhan fwyaf o ddyledion y byd - sef y prif broblemau sy'n nodweddi anghyfiawnder economi'r byd.

### Nid dweud ond gwneud

Mae hyn yn gofyn llawer – ond eisoes, mae'r llywodraeth Brydeinig fel pe bai fwy o ddifri ynglwn â thlodi nag o'r blaen. Yn Nghynhadledd y Blaid Lafur eleni, clywsom Blair, Brown ac, wrth gwrs, Bono oll yn dweud fod angen gweithredu.

Mae'r problemau mae'r ymgyrch yn dadlau yn eu cylch wedi bod yn destun ymgyrchoedd maith dros nifer o flynyddoedd. Mae'r llywodraeth hon, yn anad yr un arall, yn feistr ar y grefft o ddweud ei dweud heb wneud yr hyn sydd angen ei wneud.

Mae'r Gweinidog Masnach, Patricia Hewitt, wrth ei bodd yn canu clodydd Cyfiawnder mewn Masnach, a'r angen am wneud mwy. Ac eto, mae Prydain wedi cefnogi'r UE yn ei ymdrechion i ddefnyddio'r cytundeb GATS i orfodi gwledydd sy'n datblygu i ganiatáu rheolaeth breifat ar eu cyflenwad dwr – polisi sydd, mewn llawer o wledydd, wedi achosi prinder dwr ac i afiechydon ledaenu. Y llywodraeth Lafur hon oedd yn gyfrifol am gam mawr ymlaen drwy 'ddadrwymo' cymorth – fel bod arian yn cael ei wario yn ôl angen, ac nid er budd busnesau Prydeinig. Ond hon hefyd oedd y llywodraeth a gychwynnodd y polisi o gyplysu taliadau cymorth wrth amodau a oedd yn gorfodi gwledydd tlawd i ailstrwythuro eu heconomïau yn ôl dymuniadau'r elit yn Washington sy'n rhedeg Banc y Byd a'r IMF.


Mae 2005 yn cynnig cyfleoedd anferth i newid cwrs y byd, ond yn anffodus, gallai'n hawdd iawn droi'n ddim mwy na llwyddiant arall i beiriant sbin y llywodraeth, heb ddim newid o sylwedd.

**Eliot Whittington**
**Mudiad Datblygu'r Byd**

2005

# Anghyfiawnder hinsawdd

**Ydych chi wedi sylwi pam mor ddi-ddal yw'r tywydd yn ddiweddar? Mae cennin Pedr yn blodeuo'n gynharach nag arfer, mae'n hafau'n dwymach a'n gaeafau'n wlypach. Mae cyfres o gorwyntoedd anghyffredin o ffyrnig wedi taro'r Caribî a'r Unol Daleithau ac mae 14 miliwn o bobl yn Bangladesh wedi colli eu cartrefi a chael eu hynysu gan lifogydd eleni. Ac eto, mae'r tywydd yn mynd i newid mwy fyth wrth i effeithiau'r newid yn ein hinsawdd ddechrau dylanwadu'n ddifrifol ar y byd.**




### Llai o adnoddau = mwy o Arfau Dinistr Torfol

Mae'r newid hinsawdd yn cael ei achosi gan lefel gynyddol o nwyon ty gwydr, carbon deuocsid yn bennaf, yn atmosffer y ddaear. Derbynir yn gyffredinol yn awr fod llosgi tanwydd ffosil, yn y byd 'datblygedig' yn bennaf, yn cyfrannu tuag at newid hinsawdd, ac eto, y bobl sy'n dioddef fwyaf o effeithiau hynny yw trigolion gwledydd llai datblygedig sy'n cyfrannu leiaf at y broblem. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi dweud y bydd cynnydd o fetr yn lefel y môr, wrth i iâ'r pegynau a'r rhewlifoedd doddi, a fydd yn arwain at ddiflaniad llwyr y Maldives, ac yn gyrru 24 miliwn o bobl o'u cartrefi yn India, Bangladesh ac Indonesia. Mae adroddiad amddiffyn cyfrinachol gan y Pentagon yn rhagweld y gallai newid sydyn yn yr hinsawdd ddod â'r blaned i drothwy trychineb wrth i wledydd ddatblygu mwy o arfau i geisio amddiffyn a diogelu cyflenwadau llai o fwyd, dwr ac ynni. Mae'r adroddiad yn awgrymu y bydd gwrthdaro niwclear, sychdwr anferth, newyn a therfysgoedd byd-eang yn ffrwydro ym mhedwar ban y byd.

### Ynni niwclear – dim diolch

Un o brif ffynonellau carbon deuocsid yw'r diwydiant cynhyrchu ynni. Gallem ni yma yng Nghymru leihau hyn yn sylweddol drwy fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, gan fod gan Gymru ddigon ohono ar ffurf ynni'r gwynt, y llanw a'r tonnau. Mae cefnogwyr y diwydiant niwclear yn honni y dylem droi ar bwer niwclear am ein hanghenion ynni. Mae technoleg niwclear yn ddrud, mae cysylltiad clos rhyngddo ag arfau niwclear, gallai fod yn agored i ymosodiad gan frawychwyr, ac mae'n gadael gwaddol o wastraff ymbelydrol, gwenwynig am ddegau o filoedd o flynyddoedd. Does dim rheswm peryglu'n hunain fel hyn pan fo'r fath doreth o adnoddau adnewyddadwy ar gael yn hawdd.




### Geiriau gwag

Dangosodd arolwg diweddar gan Cyfeillion y Ddaear Cymru a Chyngor Defnyddwyr Cymru, *Climate Concern*, fod 66% o bobl Cymru naill ai'n poeni'n fawr, neu'n poeni tipyn am newid hinsawdd, a bod 85% yn credu fod ein patrymau tywydd cyfnewidiol yn profi fod hyn yn digwydd. Mae Cyfeillion y Ddaear yn gweithio gydag eraill i wneud pobl yn fwy ymwybodol o effeithiau newid hinsawdd, ac mae'n galw am weithredu gwleidyddol chwyrn i wrthsefyll yr effeithiau gwaethaf. Yn ôl Prif Weinidog Prydain, newid hinsawdd "yw'r her amgylcheddol fwyaf sy'n wynebu'r byd", ac eto mae ei lywodraeth yn parhau i noddi'r diwydiant tanwydd ffosil, ac mae'n eiddgar i ehangu'r diwydiant awyrennau, cyfrannwr allweddol arall at newid hinsawdd. Mae 2005 yn cynnig sawl cyfle i osod newid amgylchedd yn uchel ar yr agenda wleidyddol. Mae achlysur lansio Clymblaid yr Hinsawdd, sef amrywiaeth o grwpiau amgylchedd, datblygu a chrefyddol, ymhlith eraill, yn gyfle i weithio gyda'n gilydd i bwysleisio effeithio amgylcheddol a chymdeithasol newid hinsawdd.

**Raoul Bhambral**

heddweithredu:

*** *Fel blaenoriaeth*: defnyddiwch lai o ynni. Anogwch gynrychiolwyr etholedig i ddatblygu polisïau ymarferol a difrifol i fuddsoddi mewn mesurau cadwraeth ac arbed ynni.**

*** Newidiwch i gyflenwydd ynni adnewyddadwy er mwyn lleihau'r galw am drydan sy'n cael ei gynhyrchu o danwydd ffosil. Ffoniwch 020 7490 1555 am restr o gyflenwyr cymeradwy.**

*** Pwyswch ar eich Aelodau Cynulliad i gefnogi projectau ynni adnewyddadwy a gwrthwynebu pwer niwclear. Galwch ar y Cynulliad i noddi ymgyrch i addysgu'r cyhoedd ynglyn ag effaith newid hinsawdd fel rhan o strategaeth ehangach i annog defnyddio llai o garbon. Gallwch ddarganfod pwy yw'ch Aelodau Cynulliad drwy ffonio 029 2089 8200.**


*** Am gopïau o lyfryn Cyfeillion y Ddaear Cymru, *Renewable Energy*, neu'r adroddiad, *Climate Concern*, ffoniwch 029 2022 9577 (neu llwythwch i lawr o www.foecymru.co.uk)**

# Heddwch byd-eang yn dechrau yn Llanelli

***"Mae lleisiau anoddefgarwch o'n cwmpas ym mhob man – mae'n rhaid i lais goddefgarwch fod yn uwch"***

**Daeth y Mala Heddwch i fod mewn stafell ddosbarth yn Ysgol Coedcae, Llanelli pan oedd Pam Evans, Pennaeth Astudiaethau Crefyddol, a'i myfyrwyr yn trafod digwyddiadau ofnadwy yr 11eg o Fedi 2001. Daeth y disgyblion a'u hathrawes i'r casgliad fod angen gwneud rhywbeth i atal rhagfarn ac anoddefgarwch crefyddol. Gellid fod wedi disgwyl y byddai cynnydd mewn casineb at Islam yn y byd, fel ymateb i'r ymosodiad. Beth oedd yn fwy arswydus oedd y cynnydd mewn ffwndamentaliaeth grefyddol, hiliaeth a rhagfarn sy'n ein hwynebu ni heddiw.**

Yng ngeiriau Pam ei hun - *"Sylweddolais, yn fuan iawn, nad oedd ein cymuned ni wedi osgoi canlyniadau Medi'r 11eg. Roedd casineb at Islam a gwawd hiliol wedi mynd yn beth cyffredin yn ein hysgol. Roedd aelodau o'r gymuned Fwslimaidd leol wedi dioddef sarhad ffiaidd. Bu ymosodiad hiliol ar y mosg ac roedd dyn wedi marw o drawiad ar y galon, a allai fod wedi ei achosi gan straen yn ystod y digwyddiad cywilyddus hwn. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y synagog yn Abertawe ei halogi. Dyna un o'r ymosodiadau gwaethaf ar synagog unrhyw le ym Mhrydain. Roeddwn yn arswydo."*



O hyn oll, deilliodd syniad syml ond effeithiol a fyddai'n denu dychymyg pobl ifanc: sef breichled enfys symbolaidd, yn cario llwyth o negeseuon, 'mala heddwch' a fyddai'n hwyl i'w wneud ac i'w wisgo. Yn syml iawn, mae'r freichled yn cynrychioli crefyddau'r byd yn byw ochr yn ochr â'i gilydd mewn cytgord; croesawyd y syniad yn frwd gan fyfyrwyr eraill yn yr ysgol.

### Cefnogaeth ehangach

Croesawodd aelodau o gymunedau crefyddol ledled de Cymru y Mala Heddwch fel cam positif i'r cyfeiriad iawn, o safbwynt annog parch a chytgord yn y gymuned. Fel cymeradwyaeth bellach, rhoddodd Ymddiriedolaeth y Tywysog Wobr Mileniwm o ryw £15,000 i'r fenter ym mis Hydref 2002 i sefydlu project ieuenctid gwych sy'n hyrwyddo heddwch, goddefgarwch, parch, a chytgord crefyddol yn y gymuned leol.

Daeth Imran Sheikh, Mwslim a oedd wedi dioddef sarhad hiliol, yn un o arweinwyr y Tîm Ieuenctid. Er ei lansio, mae'r Mala Heddwch wedi mynd o nerth i nerth ac mae wedi cael ei ganmol gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Gwobr Difidend Cymuned y Co-op, a ChildLine Cymru. Mae eraill sydd wedi canmol y fenter yn cynnwys y Pab, y Dalai Lama, Jill Evans ASE (Cadeirydd CND Cymru), Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain, Srila Sivarama Swami, Archesgob Caergaint, Rowan Williams a Sheikh Maulana Muhammad Nazim al Haqqani.

### Aml-grefydd

Mae gan y Mala Heddwch arobryn bellach swyddfa gofrestredig, canolfan a gardd heddwch hardd lle cynhelir gweithgareddau a gweithdai. Ym mis Awst eleni, ymunodd aelodau o'r holl grefyddau i ddathlu llwyddiant y Mala Heddwch. Disgrifiodd Robert Williams, Archddiacon Gwyr, yr achlysur fel un o'r rhai mwyaf teimladwy yn ei fywyd. Goleuodd ef a Lama Khyimsar Rinpoche gannwyll ar gyfer heddwch byd-eang ger bron yr holl gynrychiolwyr.

## heddweithredu:

**Llawlyfr Athrawon**: Defnyddio'r Mala Heddwch yn y stafell ddosbarth (yn cynnwys gweithgareddau stafell ddosbarth ar gyfer CA2, CA3 a CA4, Cyflwyniad Soced-trydan CD Rom, Mala Heddwch Enfys Deublyg a llyfryn eglurhaol). £15.00 (a chludiant). Gellir prynu'r mala yn ei ffurf barod neu fel "cit" y bydd y myfyrwyr yn ei gydosod, dan arweiniad yr athro neu athrawes neu ar eu pen eu hunain.

**Mala Heddwch Enfys Deublyg** - mwclis gwydr 8mm a llyfryn eglurhaol - £3.00 (a chludiant)
**Mala Heddwch Enfys Deublyg** - mwclis gwydr 6mm a llyfryn eglurhaol - £2.50 (a chludiant)
**Cit Mala Heddwch Enfys Deublyg** - mwclis gwydr 6mm a llyfryn eglurhaol - £2.00 (a chludiant)

Mae'n rhaid i ni dderbyn sieciau'n daladwy i *Mala Heddwch* cyn gallu postio'r nwyddau. Mae'r holl arian a dderbynir yn cael ei fuddsoddi yn y project. Croeso i bob cynnig o help gyda'r fenter hon i frwydro yn erbyn rhagfarn ac anoddefgarwch. Cysyllter â: Pam Evans, Pennaeth Astudiaethau Crefyddol, Ysgol Coedcae, Heol Trostre, Llanelli SA15 1LJ ffôn: (01792) 774 225 ebost: info@peacemala.org.uk

***Mae heddwch yn dechrau gyda phob un ohonom ni. Gwisgwch eich Mala Heddwch â balchder!***

## Pwrpas y mala heddwch

Gair o'r Sanskrit yw Mala; mae'n golygu torch o flodau. Mewn rhai rhannau o'r byd, cadwyn o fwclis yw'r mala, a ddefnyddir wrth fyfyrio neu weddïo. Gall pob mwclen neu "flodeuyn" ar y mala gynrychioli mantra neu weddi. Mae'n mala ni'n wahanol. Nid rhywbeth at ddefnydd crefyddol ydyw, er y gall y rhai sy'n ei wisgo ei ddefnyddio felly os mynnant. Eitem ffasiwn yw'r Mala Heddwch sy'n cael ei wisgo am yr arddwrn, ac mae hefyd yn gymorth dysgu ymarferol y gellir ei ddefnyddio gyda phobl ifanc i helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth, goddefgarwch a pharch rhwng cymunedau.

Y gobaith yw y bydd y Mala Heddwch yn ennyn diddordeb ac yn ysgogi pobl ifanc ac oedolion i ddysgu mwy am y crefyddau a gynrychiolir ar y mwclis.

## Ystyr y mwclis enfys


Mae'r mwclis lliw yn creu enfys deublyg o'r crefyddau. Mae'r enfys yn ddolen gyswllt symbolaidd bwysig rhwng nefoedd a daear mewn llawer o ddiwylliannau. Mae'r Mala Heddwch yn cynnwys 14 o fwclis lliw gyda mwclen wen ganolog rhwng y clymau symbolaidd. Mae Mala yn cynnwyd dim ond un o liwiau'r enfys ar gael hefyd, yn cynrychioli crefydd unigol. Yn y trefniadau hynny, mae'r fwclen wen ganolog yn mynd yn symbol o'r enfys ac yn cynrychioli'r holl grefyddau eraill. I'r rheini a hoffai rywbeth llai lliwgar, mae mala o 14 o fwclis du ac un fwclen wen ar gael. Yr un yw'r neges bob tro. Mae'r Mala Heddwch yn cynrychioli pob llwybr ysbrydol a'u negeseuon o heddwch i'r byd. Defnyddir y fwclen glir derfynol fel togl i gau'r freichled am yr arddwrn. Mae hyn yn cynrychioli undod, cytgord a heddwch.

# Naw Biwmares – protest berffaith

**Cafodd yr achos yn erbyn Naw Biwmares, a oedd yn disgwyl ymddangos ger bron llys am feddiannu'r castell am 36 awr ym mis Mehefin, ei ollwng gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y naw myfyriwr o Brifysgol Bangor yn protestio yn erbyn goresgyniad Irac a Phalesteina. Roedd CADW, asiantaeth y llywodraeth sy'n gofalu am y castell, wedi hawlio ei bod wedi colli £1,700 mewn refiniw am ei bod wedi gorfod cau'r castell i'r cyhoedd am ddau ddiwrnod, ond nid achoswyd unrhyw niwed o gwbl yn ystod y meddiant heddychlon.**

Denodd y brotest gwbl ddi-drais a llwyddiannus dros ben gyhoeddusrwydd anferth. O Fehefin y 26ain i'r 28ain, roedd baneri anferth yn crogi dros furiau'r castell fel y gallai pawb a âi heibio eu gweld, gyda sloganau yn cynnwys 'HEDDWCH', 'NO MORE LIES' a 'STOP THE OCCUPATION'. Danfonodd Heddlu Gogledd Cymru hofrenyddion, ac ar un adeg roedd 30 o heddweision o gwmpas y castell yn y dref dawel hon ar Ynys Môn, gan dynnu hyd yn oed mwy o sylw at y ffaith fod y castell wedi cael ei feddiannu.

Meddai un o'r protestwyr, Gwilym Morus: *"Roedden ni eisiau protestio yn erbyn dioddefaint y bobl gyffredin yn y Dwyrain Canol – yn Irac, Palesteina ac Afghanistan, ac yn erbyn gweithredoedd y llywodraeth Brydeinig"*. Mae Naw Biwmares (Gwilym Morus, Alan Cawlishaw, Alice Gray, Phillip Jones, Thomas Fernley- Pearson, Jonathan Baines, Patrick Carmichael Fry, Elizabeth Griffiths a Steve Collings) yn haeddu llongyfarchiadau gwresog ar eu gweithred wych a'i chanlyniadau.




heddweithredu:

**Mae Steve Collings, sy'n ymweld â Phalesteina ar hyn o bryd, wedi danfon gair o Fethlehem yn disgrifio'r amodau erchyll a brawychus mae pobl gyffredin Llain Gaza yn gorfod eu dioddef yn ddyddiol. Mae'n apelio: "At holl grwpiau Heddwch Cymru, DA CHI, gweithredwch i ddangos cefnogaeth. Mae ofn ar y bobl yma, a dydyn nhw ddim yn credu fod neb yn hidio dim amdanynt. Dangoswch iddyn nhw eu bod yn anghywir a bod ganddynt ffrindiau. Gweithredoedd protest unigol, meddiannu, areithio, streiciau newyn cefnogol, gorymdeithiau i lysgenadaethau, llythyron agored yn y papurau newydd, gweithredoedd boicotio, pwysau ar ASau Ewropeaidd i gefnogi cynllun Sbaen, dosbarthu taflenni – does dim ots os yw'r gweithredoedd wedi eu cyd-drefnu ai peidio, ar raddfa fach neu raddfa fawr, unigolion neu grwpiau - da chi, helpwch bobl Gaza." Mae mwy o wybodaeth am Steve ar gael gan Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor (01248) 490 715**

# A Oes Heddwch? – *project heddwch Cymru*

**Mae rhwydwaith heddwch a chyfiawnder Cymru, Cynefin y Werin, wedi lansio project "Oes Heddwch" o ganlyniad i'w ymchwil ddiweddar i'r posibilrwydd o sefydlu gwasanaeth heddwch gwirfoddol i Gymru. Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, nod y project fydd addysgu pobl yng Nghymru, a'u cael i ddeall ac ymrwymo i'r syniad o ymyrraeth ddi-drais.**

Mae gan fudiadau heddwch a chyfiawnder cymdeithasol hanes maith o ymateb yn greadigol i wrthdaro treisgar, yn cynnwys protestio torfol, streiciau a boicotiau, gweithredu symbolaidd ac anufudd-dod di-drais. Mae'r traddodiad hwn yn gryf yng Nghymru, gyda'i hanes maith o sosialaeth a heddychiaeth, mudiadau cydgadernid, a'r elfen gref o heddychaeth sydd mewn cenedlaetholdeb a mudiaid yr iaith.

Yn fwy diweddar, mae gweithredwyr o'r mudiad heddwch, lawer ohonynt o Gymru, wedi ymyrryd yn ddi-drais mewn gwrthdaro, yn cynnwys yn y gyn-Iwgoslafia, Palesteina ac Irac. Fodd bynnag, er gwaetha'r nifer gynyddol o bobl sy'n gwneud y math yma o waith heddwch, ychydig iawn o fudiadau sy'n bod i hyrwyddo a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau ymyrraeth ddi-drais. Mae'n debyg mai 'Peace Brigades International' yw'r mudiad mwyaf adnabyddus a mwyaf ei barch – mae'n recriwtio rhyw 17 o bobl y flwyddyn er ei fod yn derbyn ceisiadau gan lawer mwy. Sefydlwyd 'Non-violent Peaceforce' bedair blynedd yn ôl i hyfforddi a thalu timau o weithwyr heddwch. Mae ei dîm cyntaf o 10 o weithwyr heddwch yn Sri Lanka yn awr, ac mae'n bwriadu recriwtio 40 arall y flwyddyn nesaf. Mae canolfannau ar gyfer gweithredu di-drais yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.



Cynhelir digwyddiad i lansio'r fenter yn Aberystwyth ar yr 29 o Ionawr 2005. Bydd cyfle i weithredwyr rannu a dysgu oddi wrth brofiadau ei gilydd; i gydweithio a denu amrywiaeth ehangach o bobl i hyfforddi mewn dulliau di-drais yn ein broydd lleol; ac i rwydweithio gyda mudiadau tebyg o'r Alban, Iwerddon a gwledydd eraill. Bwriedir cynhyrchu cyfeiriadur dwyieithog o fudiadau, hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer ymyrraeth ddi-drais, a bwriedir cynnal cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi yn y gogledd, y Canolbarth a de Cymru.

**Del Harris**

heddweithredu:

**Am wybodaeth bellach, cysyllter â Clare Sain ley Berry (02920) 821 055 claresainleyberry@wcia.org.uk. Mae'r gweithgor sy'n trefnu'r digwyddiad lansio ac agweddau eraill ar y project yn dal yn agored i wirfoddolwyr!**

# Whitehall yn cynllunio coridor awyr milwrol dros dde-orllewin Cymru

**Ym mis Awst, cadarnhaodd llefarydd ar ran maes profi Cerbydau Awyrol Di-Beilot (CADau) newydd a allai gael ei adeiladu yn Aberporth, Ceredigion, fod cynlluniau i sefydlu coridor awyr rhwng Aberporth a'r meysydd tanio ar Fynydd Epynt (Pontsenni) ym Mhowys. Fodd bynnag, dydy'r dadleuon fod y CAD yn cael ei ddatblygu i gwrdd â'r twf a ragwelir mewn defnydd sifil ddim yn dal dwr, o'u harchwilio'n fanwl.**

Mae'r CIA eisoes wedi defnyddio CADau yn cludo taflegrau 'Hellfire' yn Afghanistan ac, yn anghyfreithlon, yn Yemen hefyd, lle cafodd chwe pherson mewn car eu targedu a'u lladd gan daflegryn CAD wedi ei lywio o bell, gan beilot yn Djibouti; taniwyd y taflegryn drwy ddefnyddio terfynell fideo hirbell. Mae swyddogion amddiffyn yr UD wedi dweud y bydd y CAD arfog yn cael ei ddefnyddio eto yn erbyn 'targedau gwerth-uchel y mae eu hatal yn fater brys' (*Jane's Weekly*, Tachwedd 2002).

### Osgoi gwrthdrawiad

Mae'r dechnoleg sydd ei hangen cyn y gall y dronau robot hyn weithredu'n ddiogel mewn awyrofod sifil yn dal i fod yn destun ymchwil a datblygu, ac felly, ni fydd ar gael yn fasnachol am flynyddoedd; yng ngeiriau Drew Carmichael o'r Asiantaeth Pwrcasu Amddiffyn Brydeinig, "rhaid i ddiwydiant ddatrys problem osgoi gwrthdrawiadau". Yng ngeiriau papur arall ar y pwnc, "mae problem canfod, synhwyro ac osgoi awyrennau eraill wrth hedfan yn her hollbwysig y bydd yn rhaid ei goresgyn cyn y bydd awdurdodau hedfan sifil yn caniatáu i CADau hedfan mewn awyrofod sifil'. Mae'n anodd gweld sut y gellir mynd ymlaen i ddatblygu fersiwn fasnachol o'r ffefryn milwrol yma os nad yw'r feddalwedd a'r cylchedwaith hollbwysig fydd yn caniatáu iddo weithredu yng nghanol awyrennau sifil yn bod hyd yma. Caniateir i CAD *Global Hawk* Awyrlu'r UD hedfan mewn awyrofod sifil, ond mae'r CAD yma'n gweithredu ar uchder o ryw 60,000 troedfedd, filoedd o droedfeddi uwch law awyrennau masnachol (er bod yn rhaid iddo ddringo i'r uchder hwnnw, wrth gwrs).

### Diogelwch sifiliaid

Mae *Global Hawk* yn canolbwyntio'n sylw ar y pryder pennaf ynglwn â phrofion CAD uwch law ardaloedd poblog: mater diogelwch sifiliaid. Mae data'r Pentagon ar y nifer o ddamweiniau yr awr a hedfanwyd yn dangos fod gan *Global Hawk* gyfradd ddamweiniau ryw 50 gwaith yn uwch na'r awyren ymladd F-16. Yn ychwanegol at yr ystadegyn brawychus yma, mae CADau yn agored i beryglon eraill heb law am ynnau'n tanio o'r ddaear, yn cynnwys yr elfennau; mae'r ffaith fod iâ wedi ffurfio ar adenydd neu baneli rheoli wedi achosi i nifer sylweddol o CADau Americanaidd ddisgyn, dros y Balcanau a thros Afghanistan. Mae hon, wrth gwrs, yn ffactor berthnasol iawn i'r coridor awyr arfaethedig dros y Canolbarth – mae mesuriadau tywydd wedi dangos mai Pontsenni, yn ystod y gaeaf, yw'r man oeraf ym Mhrydain yn aml iawn.

### Hedfan isel milwrol heb beilotiaid

Mae trigolion cyffredin cefn gwlad Cymru eisoes yn dioddef o effeithiau annerbyniol hedfan isel milwrol. Er y gwyddom ni'n amgen, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dal i fynnu nad achosir unrhyw niwed i iechyd ac i'r amgylchedd gan y ffurf wrthun hon o arbrofi a hyfforddi milwrol. Mae effeithiau gweithgaredd milwrol ar yr amgylchedd gyda'r mwyaf niweidiol ar y ddaear, sy'n effeithio ar bob un ohonom, ble bynnag y bôm yn byw.

### Pam Cymru?

Dim ond rhan fechan o Epynt y caiff y cyhoedd a ffermwyr rywfaint o fynediad iddo; y boblogaeth bennaf yw anifeiliaid fferm a bywyd gwyllt. Bydd unrhyw ddamwain neu anap CAD yn effeithio'n uniongyrchol ar rai sy'n byw yng nghyffiniau'r meysydd tanio milwrol. A fyddai pobl sy'n byw o dan y 'coridor awyr' (a fyddai dros Bowys, a llawer o Shir Gâr a Cheredigion) yn cael eu symud o'u cartrefi yn ystod y profion – neu os na fyddant, pa warant sydd nad â dim o'i le?

Efallai ei bod hi'n wleidyddol gyfleus i'r rhai mewn grym, ond a ydy hi'n foesol ac yn amgylcheddol dderbyniol gorfodi i bobl sy'n byw mewn ardaloedd isel eu poblogaeth i ddioddef hyn? Os mai datblygu i ddibenion sifil yw hyn, yna beth sydd o'i le ar ddefnyddio Filton, Bryste (lle datblygwyd Concorde)?

### Rhy fudr ar gyfer Cymru neu unrhyw le arall


Mae hyn i gyd yn fater ar wahân i oblygiadau moesol datblygu technoleg i reoli a lladd pobl o hirbell. Mae lladd o hirbell hyd yn oed yn fwy anfoesol na dulliau mwy uniongyrchol, gan ei fod yn caniatáu i'r un sy'n gweithredu/lladd wadu unrhyw gyfrifoldeb. Nid yw'r math yma o dechnoleg yn gydnaws â dyfodol amgylcheddol gynaliadwy. Ai mater o swyddi, costied a gostio, ydy hyn? A ydyn ni yng Nghymru wir am fod yn rhan o'r math yma o fusnes budr?

**Jill Stallard**

**gan ddiolch i Joe E. Mellor am ganiatâd i gynnwys fersiwn talfyredig o "High Spy with my Little Lie" o rifyn Medi o *'The Free Flyer'*.**

heddweithredu:

**Os ydych chi'n byw rhwng Aberporth a Gogledd Sir Gaerfyrddin neu dde-orllewin Powys, sgrifennwch ar eich ACau a'ch ASau ynglwn â'r cynlluniau hyn i wneud profion CAD uwch ben ein cartrefi, gan ofyn llawer o gwestiynau! Danfonwch gopi o unrhyw ateb at CND Cymru.**




***'Global Hawk'***

# Ray a'i ffrindiau'n atal gwaith yn y ganolfan arfau niwclear - eto


**Cafodd is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies ei restio eto yn y 'Gwarchae Mawr' ym mis Awst yng nghanolfan arfau niwclear Trident Faslane yn yr Alban, a drefnwyd gan Trident Ploughshares ac CND yr Alban. Roedd Ray wedi ymuno â channoedd o weithredwyr heddwch eraill o bedwar ban y byd, yn cynnwys sawl ASA, i rwystro'r chwe chlwyd i'r ganolfan mewn cyfres o weithredoedd di-drais, gyda'r nod o ddatguddio rhagrith y llywodraeth Brydeinig ar fater arfau dinistr torfol.**

Fe glodd ei hun wrth glwyd, gyda'r protestwyr eraill gyda thiwbiau dur a phlastig a chadwyni, ac eisteddodd yn y ffordd o flaen y brif Glwyd Ogleddol am saith awr cyn cael ei restio. Llwyddodd y brotest i atal gwaith yn y ganolfan am oriau lawer. Ar yr un pryd, nofiodd protestwyr gwrth-niwclear o fewn 15 metr i longau tanfor sy'n cario arfau niwclear Trident, yn yr angorfeydd diogel.

Meddai Ray: "Fe ddes i ar y brotest hon nid yn unig i gynrychioli CND Cymru, ond ar ran fy ngwraig Wendy, fy mhlant ifanc, Tad a Carwyn a holl blant y byd. Yr unig ddewis call ar gyfer y blaned a'i llywodraethau yw dechrau diarfogi niwclear, a dylai Prydain ddangos y ffordd ymlaen drwy fod ymhlith y diarfogwyr cyntaf, i roi esiampl i weddill y byd."

Mae Ray wedi gwrthod talu dirwyon a dderbyniodd mewn tair gweithred heddwch arall: am dorri i mewn i Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston; torri i mewn i Ddociau'r Llynges yn Devonport mewn ymgais i atal llong danfor rhag hwylio oddi yno i'r Dwyrain Canol; ac am warchae blaenorol ar Faslane yn 2003. Mae wedi gwrthod talu gwerth £1400 o ddirwyon, gan y byddai eu talu yn golygu ei fod yn derbyn nad oedd ei wrthwynebiad heddychlon i arfau dinistr torfol ein llywodraeth yn iawn.

**Ystadegau Diweddaraf ar gyfer Trident Ploughshares**
(Medi 2004)
214 addunedwr o 14 o wledydd
2,184 wedi eu restio
497 o achosion llys, gyda llawer mwy i ddod
2,154 o ddyddiau yn y carchar, heb gynnwys amser a dreuliwyd mewn celloedd heddlu
£71,836.50 mewn dirwyon ac 'iawndal'




heddweithredu:
Ymgyrch yw Trident Ploughshares i ddiarfogi Trident, system arfau niwclear y DU mewn modd di-drais, agored, heddychlon a chwbl atebol. Trident Ploughshares,42-46 Bethel St, Norwich NR2 1NR (0845) 4588 366 neu (0845) 4588 364 www.tridentploughshares.org info@tridentploughshares.org

# Trident: Arfogaeth Niwclear Prydain

**4 llong danfor niwclear.**

**3 bob amser yn weithredol.**

**14 taflegryn niwclear ar bob llong danfor**

**Pob llong danfor yn cario 48 o ergydion niwclear 100 kiloton (gallant gario 96).**

**Gall pob ergyd niwclear daro targed gwahanol.**

**Cyfanswm yr ergydion niwclear = 384.**

**Mae un ergyd Trident 8-gwaith yn gryfach na bom niwclear Hiroshima ym 1945.**

**Cyfanswm a laddwyd ar unwaith yn Hiroshima = 140,000 o bobl.**

**Cyfanswm nerth Trident = 3,072 Hiroshima.**

**Cyfanswm gallu Trident i ladd ar unwaith pe defnyddid pob arf niwclear = 430 miliwn o bobl.**

**Yn ychwanegol at hynny, mae ergydion eraill wedi eu storio neu wrthi'n cael eu hailwampio.**

# Blocio'r Bildars yn Aldermaston!

Ymgyrch a drefnwyd gan Wersyll Heddwch Menywod Aldermaston yw 'Block the Builders', gyda'r nod o atal adeiladu cyfleuster laser newydd, "Orion", drwy ddulliau di-drais. Orion yw'r cam cyntaf mewn cyfres o ddatblygiadau newydd yn Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston lle mae ergydion niwclear taflegrau Trident Prydeinig yn cael eu hailwampio. Gwyddom y bwriedir cychwyn ar y gwaith adeiladu yn 2005, ond wyddom ni ddim yn union pryd. Mae camau diweddarach yn cynnwys canolfan hydrodynameg, labordy gwyddoniaeth faterol, ac uwchgyfrifiadur. Bydd y rhain yn galluogi gwyddonwyr i gasglu data na ellid fod wedi ei gasglu o'r blaen ond drwy brofion niwclear tanddaearol, gan danseilio'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr.

Meddai Papur Gwyn ar Amddiffyn mis Rhagfyr 2003:

***Nid oes angen penderfynu p'run ai i roi system newydd yn lle Trident yn ystod y senedd hon, ond mae'n debyg y bydd angen***




***penderfyniad yn yr un nesaf. Gan hynny, byddwn yn parhau i gymryd y camau priodol i sicrhau fod yr amrediad o opsiynau ar gyfer cynnal gallu brawataliol niwclear yn cael eu gadw'n agored tan y penderfyniad hwnnw.***

Ym mis Mehefin 2002, dywedodd llefarydd ar ran SAA Aldermaston wrth y *Guardian* y byddai'r cyfleusterau newydd yn rhoi i Aldermaston y *gallu* i ddylunio a chynllunio arfau niwclear marwol ond llai o faint a 'mwy defnyddiadwy'. Mae cyfleusterau cynhyrchu presennol Aldermaston yn ddigonol at ddibenion adeiladu a chynnal a chadw ergydion niwclear Trident am flynyddoedd eto, felly ni ellir ond dod i'r casgliad fod yr offer newydd ar gyfer rhaglen niwclear newydd.

Mae ymgyrch Blocio'r Bildars yn ceisio hysbysu mwy o bobl ynglwn â'r datblygiadau newydd hyn, a chael pobl i weithredu'n ddi-drais yn eu herbyn. Mae Gwersyll Heddwch y Menywod yn casglu addewidion gan rai sy'n fodlon cymryd rhan. Gall unrhyw un sy'n barod i weithredu ymrwymo – rhai sy'n barod i gael ei restio a rhai sydd am chwarae rhan gefnogol.

heddweithredu

**Mae taflen gefndir gynhwysfawr 'Block the Builders', sy'n cynnwys yr ymrwymiad, ar gael gan BtB c/o AWPC, 5 Caledonian Road, Llundain N1 9DY.**
**ebost: btb@aldermaston.net**
**ffôn: 07969 739 812**
**http://www.blockthebuilders.org.uk**

# Menywod o Israel a Phalesteina'n uno dros heddwch

**Ar y 31ain o Awst eleni, bu farw un ar bymtheg o bobl ar hap mewn dau ymosodiad bomio ar fysus gan hunanladdwyr yn Beersheba, Israel. Wythnos yn ddiweddarach, bu farw pedwar ar ddeg o Balestiniaid yn Ninas Gaza pan saethwyd taflegrau o hofrennydd rhyfel Israelaidd. Mae'r cylch o drais yn ymddangos yn ddiddiwedd. Ac eto, mae'r tri deg o farwolaethau yn dri deg rheswm nerthol dros ystyried eto sut y gellir creu heddwch.**

## Cyd-ddealltwriaeth

Gyda hyn mewn golwg, mae Menywod at Fenywod dros Heddwch – mudiad heddwch menywod o Brydain – yn ymgysylltu â menywod sy'n weithgar yn Israel a Phalesteina. Ymwelodd wyth cynrychiolydd o grwpiau heddwch Israelaidd a Phalestinaidd â Chymru yn yr hydref fel gwesteion Menywod at Fenywod dros Heddwch. Croesawyd y menywod gan Jill Evans ASE a Chadeirydd CND Cymru. Aethant i gyfarfod ag Aelodau o'r Cynulliad ac aelodau o gymunedau Mwslimaidd ac Iddewig Caerdydd, a buont yn annerch cyfarfodydd cyhoeddus. Gobeithio fod yr ymweliad wedi galw sylw at y gwaith mae'r menywod hyn yn ei wneud dros heddwch, ac ennill cefnogaeth iddynt yn eu brwydr dros gyd-ddealltwriaeth a chyfiawnder. Eu gwaith nhw yw'r gwaith tawel ond dewr dros heddwch, cymod a dealltwriaeth nad oes fawr neb yn adrodd amdano.

## Heddwch oddi wrth y bobl

Yr ymwelydd ieuengaf oedd merch ugain oed sy'n gwrthod mynd i'r fyddin; dydy ei theulu ddim yn cefnogi ei safiad. Mae hi newydd orffen gwneud ei Gwasanaeth Cymuned amgen mewn ysgol feithrin ddemocrataidd. Mae aelod arall o'r grwp yn mynd bob wythnos i fonitro'r rheolfannau "trychinebus" yn y Tiriοedd dan Feddiant. Gan danseilio'r ystrydeb o Iddew yn erbyn Mwslim, danfonodd un mudiad Israelaidd gynrychiolydd sy'n Balestiniad o Fwslim sydd hefyd yn fam sengl; mae dau o'r cynrychiolwyr Palestinaidd yn Gristnogion. Dywedodd Rivka, myfyrwraig aeddfed o Israel, 'Dylai'r heddwch fod yn gyfeillgar a dod oddi wrth y bobl, nid dim ond trefniant diplomyddol'. Mae Jill Evans eisoes wedi ymweld ag Israel a Phalesteina ac mae'n gobeithio mynd eto yn y dyfodol agos. Dywedodd: *"Rwyf wrth fy modd i allu croesawu'n ffrindiau o Israel a Phalesteina a gobeithio y cânt bob cyfle posibl i siarad â chymaint o bobl ag y medrant ynglwn â'r gwaith maent yn ei wneud dros heddwch a chyfiawnder."*



## Gweithio tuag at heddwch

Y project hwn yw'r cam cyntaf mewn sefydlu cysylltiadau a fydd yn parhau rhwng aelodau o Menywod at Fenywod dros Heddwch a'r ymwelwyr. Gobeithiwn y bydd rhai menywod o wledydd Prydain yn gallu teithio i'r rhanbarth y flwyddyn nesaf, i atgyfnerthu'r gwaith yma dros heddwch.

heddweithredu Menywod at Fenywod dros Heddwch: cysyllter â Jane Harries (Cyd-gadeirydd) ar ejharries@hotmail.com tel. 07779-010206.

# Cynhesu byd-eang yw'r broblem – nid pŵer niwclear yw'r ateb

**Mae galwadau gan gynghorydd gwyddonol y llywodraeth, David King, James Lovelock a gwahanol gyrff am raglen anferth o adweithyddion niwclear newydd ym Mhrydain mewn perygl o danseilio'n polisi ynni o 'ynni adnewyddadwy a defnydd effeithiol'. Yn ddiweddar, datgelodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth yr UD yn pwyso ar Brydain i ystyried yr opsiwn niwclear unwaith eto.**

### Methdaliad

Er mwyn dyn! Mae'r diwydiant niwclear yn fethdalwr a does ganddo ddim 'nwydd' hyfyw i'w gynnig. Mae British Nuclear Fuels Cyf (BNFL) yn esgus bod ei adweithydd arbrofol (trydedd genhedlaeth), y Westinghouse AP1000, yn 'barod i fynd', ond dydy'r adweithydd ddim wedi cael ei adeiladu neu'i weithredu unrhyw le yn y byd, a wnan nhw ddim hyd yn oed ymgeisio am drwydded Prydeinig. Y peth olaf sy ar BNFL ei eisiau yw i'n Harolygiaeth Sefydliadau Niwclear (NII) gael eu dwylo ar ddyluniad sy'n hepgor nodweddion diogelwch oedd yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer Sizewell B, er mwyn arbed arian. Eu gobaith, nawr bod George Bush wedi 'trwyddedu'r' AP1000 yn yr UD, yw y bydd Blair yn dweud 'ta waeth am yr NII, fel wnaiff hyn y tro'n iawn'.

### Diffygion diogelwch

Problem y Prif Weinidog yw na allwch chi fwrw ymlaen ag adweithyddion na roddwyd prawf arnynt, sydd heb nodweddion diogelwch a disgwyl i'r cyhoedd eu derbyn. Mae unrhyw ymgais i ymyrryd ag annibyniaeth yr Arolygiaeth Sefydliadau Niwclear yn sicr o ddyfnhau ofnau'r cyhoedd.

Bernir a yw dyluniad adweithydd newydd yn dderbyniol ar gyfer ei ddefnyddio ym Mhrydain ar sail cadw'r perygl i weithwyr a'r cyhoedd 'Mor Isel ag sy'n Rhesymol Ymarferol (MIRY). Y gofynion mwyaf sylfaenol yw : gallu cau'r adweithydd i lawr a'i gadw wedi ei gau lawr yn ddiogel; a pheidio â chynhyrchu mwy o ymbelydredd na'r terfynau a ganiateir. Mae dyluniad adweithydd sydd heb y darpariaethau diogelwch a geid mewn adweithyddion cynharach yn tramgwyddo egwyddor MIRY.

Nid oes gan yr AP1000 nodweddion diogelwch y bernid eu bod yn 'rhesymol ymarferol' yn Sizewell B, ac felly mae'n tramgwyddo egwyddor asesu diogelwch sylfaenol yr NII.

Byddai nodweddion diogelwch newydd, fel rhai'r AP1000 yn cael eu hasesu'n 'llym' o dan egwyddorion trwyddedu Prydain.

Byddai angen llawer iawn o ddata gweithredu er mwyn gallu arddangos pa mor effeithiol ydynt. Byddai'n rhaid casglu data ar y cydrannau a'r ffordd y maent yn rhyngweithio, nid yn unig wrth weithredu'n normal ond hefyd pe bai problem yn datblygu.

Gan nad yw naill ai'r AP1000, neu'r dyluniad a'i rhagflaenodd, yr AP600, wedi cael eu hadeiladu na'u gweithredu, does dim data gweithredu ar gael y gall yr NII ffurfio barn ar ei sail ynglwn â diogelwch y nodweddion newydd maent yn dibynnu arnynt.




réseau sortir du nucléaire

Nodwedd ddiogelwch amlycaf yr AP1000 yw tanc anferth o ddwr ar y to. Pe bai damwain yn yr adweithydd, byddai dur yn cael ei ollwng ar du allan y cynhwysydd dwr i'w oeri, ac atal ymbelydredd rhag dianc, ond byddai'r adweithydd wedi 'pobi' erbyn hynny.

Er mwyn arbed arian, cafwyd gwared o'r pympiau a'r falfiau sy'n cadw adweithyddion fel Sizewell B rhag gordwymo mewn damwain; felly, yr unig amddiffyniad yw system wasgedd na roddwyd prawf arni. Os metha'r system honno, mae'n amhosib rhagweld y canlyniadau. Mae'r Ffindir eisoes wedi gwrthod y dyluniad AP1000 gan y bernir na allai ei gynhwysydd wrthsefyll gwrthdrawiad awyren.

### Prynu llwyth

Er mwyn leihau'r gost, mae'r diwydiant niwclear am adeiladu cyfres o ddeg o leiaf o'r gorsafoedd AP1000, ond mae archebu cyfres o adweithyddion Westinghouse yn hunanladdiad masnachol, a gwrthodwyd holl ragbydiaethau cost eraill y diwydiant am eu bod yn eithafol o or-optimistaidd.

### Dyfaliad

Dywedai Arolwg Ynni 2002 ei bod hi'n anodd asesu pa gyfraniad y gallai adweithyddion niwclear newydd ei wneud at ddyfodol carbon-isel. Efallai y bydd pryderon ynglwn â gwastraff ymbelydrol, damweiniau a brawychwyr yn ddigon i sicrhau na chânt eu defnyddio, ond gallai adweithyddion newydd (cenhedlaeth 4) ymhen 15-20 mlynedd fod yn fwy cystadleuol na'r rhai sydd ar gael nawr.

### Y ffordd iawn

Mae ynni adnewyddadwy a defnydd effeithiol yn ddulliau sicr, cost-effeithiol, a diogel rhag brawychwyr. Dyna'r polisi iawn i Brydain, a pheidied neb â gadael i freuddwyd wag yr hen niwc-wyr ein harwain ar gyfeiliorn.


**Hugh Richards**
**Cynghrair Wrth-niwclear Cymru**


**Chwefror 19eg 2005**
**Lleoliad i gael ei gadarnhau**
**Seminar ar gynhesu byd-eang ac atebion cynaliadwy, wedi ei threfnu gan PAWB ac CND Cymru. Manylion oddi wrth: Linda Rogers (01248) 490 715 neu Rod Stallard (01550) 750 260.**

# Sut yn y byd wnaeth 'y gorllewin' y fath draed moch ofnadwy o bethau?

**Roedd Kevin Williams, o Gasnewydd, yn 'darian ddynol' yn Irac a threuliodd amser yn gweithio gyda phlant y strydoedd yn Irac yn union wedi ymosodiad yr UD/Prydain yn 2003. Mae newydd ddod yn ôl o ymweliad â Helen, ei wraig, sy'n parhau â'u gwaith yn Bagdhad.**

Y prif bethau y gallaf eu hadrodd am y sefyllfa yn Irac yw nad yw pethau'n gwella, does dim 'Ailadeiladu', ac mae pethau wedi gwaethygu.




helen williams

### Trais

Tra'r oeddwn yn Bagdhad, sylwais bod mwy o drais na'r tro diwethaf roeddwn i yno – mae llawer ohono'n digwydd heb sylw yn y cyfryngau. Ffrwydrodd dau fom yn agos iawn i'n fflat ni, a chwalodd un ohonynt ein ffenest. Iraciaid oedd y dioddefwyr, fel arfer. Tra'r oeddem allan ar y stryd, ffrwydrodd bom arall ddim ond 300 metr oddi wrth ein fflat. Roeddem ninnau ryw 80 metr oddi wrth y ffrwydrad. Gwibiodd cerbydau'r UD oddi yno nerth eu holwynion, gan ddychwelyd ryw 20 munud yn ddiweddarach gyda rhagor o filwyr. Gwelsom gorff un o'r ddau a laddwyd a gwelsom ryw naw o Iraciaid wedi eu hanafu. Pan gyrhaeddodd gohebwyr NBC, dywedwyd wrthynt, yn fy mhresenoldeb, yr "anafwyd braich gyrrwr y tacsi". Roedd gormod o ofn ar NBC i groesi'r ffordd i ffilmio'r pwll o waed. Dwedodd milwr arall fod dau neu dri wedi eu hanafu. Sôn am ryddid y wasg!

### Afiechyd

O ganlyniad i'r ymchwydd yma mewn trais, mae'r UD wedi cefnu ar rannau helaeth o Irac, yn cynnwys rhannau o Baghdad. Mae'n well ganddynt wneud hyn na galw am fwy o filwyr yn y cyfnod cyn yr etholiad. O safbwynt Iraciaid cyffredin, mae pethau'n llawer gwaeth. Yn ein fflat ni, mae llai ohonom o'i gymharu â'r rhan fwyaf o flociau o fflatiau, ac mae Helen yn talu swm ychwanegol am gael ei chysylltu â "generadur y stryd". Serch hynny, dim ond am 2½ ddiwrnod yn ystod fy 14 diwrnod olaf yn Baghdad yr oedd dwr gennym! Yn ystod tri o'r diwrnodau hynny, doedd gennym ni ddim dwr, trydan na ffôn. Heb ddwr fedrwch chi ddim yfed, ymolchi, glanhau na choginio. O ganlyniad, mae mwyfwy o afiechydon heintus yn lledaenu.

### Rhyddid?

Mae troseddu ar y stryd allan o reolaeth a does dim heddlu cyffredin yn bod. Dydy hi ddim yn ddiogel i Iraciaid fynd allan liw nos. Ai dyma beth yw rhyddid? Mae dicter yr Iraciaid yn cynyddu. Mae gwleidyddion Prydeinig, yn eu swyddfeydd ymhell i ffwrdd, yn dal i rwdlan ynglyn â'r gwrthsafiad ac Al Quaeda – ond wyddon nhw ddim am beth maen nhw'n sôn. Mae'r gwrthryfelwyr yn synhwyro buddugoliaeth, tra bod yr Americaniaid yn synhwyro methiant, ac mae'r naill yn gwybod beth yw barn y llall.

O safbwynt etholiadau yn Irac, does dim gobaith cynnal etholiad cynhwysfawr a theg. Ac am ddemocratiaeth – dydy hynny ddim yn rhan o hanes Irac, ac yn sicr, dydy llywodraethau America a Phrydain ddim yn cynnig esiampl dda. Yn Irac, mae llawer heb ddogfennau swyddogol, mae llawer o ddogfennau'n cael eu ffugio ac maent yn rhad i'w prynu, mae llwgrwobrwyo'n rhemp a dydy'r Americaniaid ddim yn gallu cyrraedd rhannau helaeth o'r etholwyr. Dydy Alawi, neu 'Sadaam heb y mwstash' fel mae'r Iraciaid yn ei alw, ddim hyd yn oed wedi datgan ei fod yn bwriadu defnyddio 30% o'r nifer o orsafoedd sydd eu hangen, yn ôl awgrym y CU. Rwy'n credu'n wirioneddol, heb law am sbin PR Blair, pe bai Sadaam a'i 'Blaid Ba'ath Newydd' yn sefyll yn yr etholiad, y byddent yn ennill buddugoliaeth ysgubol. Sut yn y byd wnaeth y Gorllewin y fath draed moch ofnadwy o 'gael gwared o unben mor erchyll'?

**Kevin Williams**


# Y Blaid Lafur yn ochri gyda rhyfel a meddiant

Mynegodd ymgyrchwyr heddwch eu siomedigaeth ddwys fod Cynhadledd y Blaid Lafur ym mis Medi wedi methu'r cyfle hollbwysig i adlewyrchu barn fyd-eang a dwyn pwysau ar y Llywodraeth i dynnu lluoedd Prydeinig allan o Irac. Er bod 71% o'r bobl a holwyd mewn Arolwg Mori diweddar am weld pennu dyddiad ar gyfer tynnu lluoedd Prydeinig allan, pleidleisiodd 85% o gynrychiolwyr y Blaid Lafur yn erbyn cynnig a fyddai wedi pennu'r dyddiad hwnnw. Gwrthododd cynrychiolwyr yn y gynhadledd hefyd gynnig a oedd yn galw ar y llywodraeth Brydeinig i gydnabod fod parhau i feddiannu Irac yn anghyfiawn ac yn dinistrio bywydau ac adnoddau, ac yn galw ar y Prif Weinidog i bennu dyddiad buan ar gyfer tynnu lluoedd Prydain allan.

Mae llawer o aelodau rhwystredig o'r Blaid Lafur ac ASau o'r meinciau cefn yn gwaredu at ymddygiad y llywodraeth Lafur ar fater Irac. Meddai Cadeirydd CND Prydeinig, Kate Hudson: *"Mae'r farn fyd-eang yn gweld presenoldeb milwyr Prydain fel rhan o'r broblem nid rhan o'r ateb. Dydy meddiannu'r wlad ddim yn mynd i ddod â heddwch a diogelwch i bobl Irac. Mae sefyllfa bresennol pobl Irac yn arswydus. Mae'r goresgyniad a'r meddiant wedi bod yn gyfrifol am ymchwydd cynyddol o drais a pherygl, nid heddwch a diogelwch. Rhaid i ni adlewyrchu barn pobl Prydain a barn fyd-eang drwy bennu dyddiad ar gyfer ymadawiad lluoedd Prydeinig ag Irac."*

# Protest unedig

**Ymunodd Joel Kenrick â mwy na 250,000 o wrthdystwyr a miloedd o gynrychiolwyr a newyddiadurwyr ar strydoedd Efrog Newydd i 'groesawu' Confensiwn y Gweriniaethwyr yn gynharach yn yr hydref.**




### Gwleidyddiaeth pleidiau'r UD

Slogan poblogaidd ar fathodynnau, crysau-t a sticeri yn UDA yn syml iawn yw 'Ail-gurwch Bush yn 2004'. Gyda'r 11eg o Fedi 2001 yn cymylu'r cof, mae'n werth cofio i Bush golli'r bleidlais boblogaidd i Gore o fwy na miliwn o bleidleisiau. Yn wir, dim ond wedi i'r Aruchel Lys 'roi' Florida iddo yr enillodd drwy'r system coleg etholiadol gymhleth. Gyda llawer o Americaniaid blaengar yn poeni fod yr un peth yn mynd i ddigwydd y tro yma, mae'r safbwynt 'Unrhyw Un ond Bush' wedi dylanwadu ar dactegau llawer o ddemocratiaid a grwpiau ymgyrchu.

Pan ymwelais ag Efrog Newydd ddiwedd mis Medi i ymuno â gweithredwyr o bob rhan o'r UDA mewn gwrthwynebiad i bolisïau llywodraeth Bush, doeddwn i ddim yn siwr iawn beth i'w ddisgwyl. Dyma'r wlad oedd wedi esgor ar gyfnod newydd yn y mudiad cyfiawnder cyd-eang yn Seattle, lle'r oedd miliynau o bobl wedi bod allan ar y strydoedd yn gwrthwynebu'r Rhyfel, ac eto dyma wlad y Ddeddf PATRIOT, cyfyngiadau ar hawliau sifil, a dyma galon cyfalafiaeth fyd-eang. Roeddwn mewn dinas wedi ei chreithio'n ddwfn gan ddigwyddiadau 9/11, a doeddwn i ddim yn siwr pwy fyddai'n mentro ar y strydoedd, dan fygythiad parhaus brawychiaeth. Yn bwysicaf oll, beth fyddai agwedd pobl Efrog Newydd a, thrwy'r cyfryngau, America gyfan tuag at wrthdystwyr a oedd wedi cael eu disgrifio fel anarchwyr peryglus?

### Protest dorfol

Roedd ymateb pobl gyffredin i'r Confensiwn ar raddfa lawer mwy nag yr oeddwn wedi ei ddychmygu. Welais i erioed o'r blaen lefel mor gyson o wrthdystiadau, ralïau, cyfarfodydd, sioeau celf a chreadigrwydd mewn gweithred genedlaethol. Roedd rhaglen wythnos o hyd o weithgareddau wedi cael ei chynllunio gan ddwsinau o wahanol grwpiau a oedd oll â'r un dymuniad, sef gweld Bush allan o'r Ty Gwyn.

Denodd taith feiciau 'mas critigol' fwy na 5,000 o feicwyr, gan alw sylw at yr agenda amgylcheddol. Drannoeth, roedd mwy na 15,000 allan ar y strydoedd mewn gorymdaith o blaid dewis i fenywod. Y diwrnod y cyrhaeddodd y cynrychiolwyr Gweriniaethol, roedd y gwrthdystiad mwyaf a welwyd mewn Confensiwn Pleidiol erioed yno i gyfarfod â nhw. Gorymdeithiodd rhwng 250,000 a 500,000 o bobl (fel arfer, roedd amcangyfrifon yn amrywio) heibio i ganolfan y Confensiwn mewn protest a drefnwyd gan 'United for Peace and Justice', clymblaid eang ei sail sy'n gwrthwynebu polisi Bush o 'ryfel parhaus ac adeiladu ymerodraeth'.

Roedd y brotest yn frith o faneri cartref a phosteri o waith llaw. Gorymdeithiai cyn-filwyr yn erbyn Bush gyda myfyrwyr, Crynwyr gyda Mwslimiaid, undebwyr llafur ochr yn ochr â ffeministiaid ac amgylcheddwyr, a chyn-Weriniaethwyr ger llaw ieuenctid anarchaidd. Troellai'r orymdaith am filltiroedd drwy ganol Manhattan: roedd rhannau ohoni'n llawn miwsig, theatr stryd a dawnsio; mewn rhannau eraill, cafodd mil o eirch wedi eu lapio mewn baneri America, yn cynrychioli milwyr a laddwyd yn Irac, eu cario drwy'r strydoedd.

Yn ddiweddarach, gorymdeithiodd 5,000 o bobl o glymblaid 'till We Rise' o grwpiau tai Efrog Newydd, ymgyrchwyr AIDS, a grwpiau mewnfudwyr, a chymerodd 4,000 o bobl ran mewn Gorymdaith Pobl Dlawd answyddogol o swyddfeydd y CU i safle'r Confensiwn. Cymerodd miloedd lawer o bobl ran mewn dwsinau o weithredoedd uniongyrchol di-drais. Restiodd yr heddlu fwy na 1,000 o bobl ar yr un diwrnod hwnnw. Mewn gwylnos ddistaw a gorymdaith o Ground Zero i Madison Square Gardens, cafodd mwy na 200 o bobl eu hamgylchynu a'u restio gan yr heddlu – er eu bod ar y palmant ac yn dilyn holl gyfarwyddiadau'r heddlu. Bu bron i mi gael fy restio – damwain a hap oedd i fy mod i'r ochr draw i gorlan yr heddlu.

Fore drannoeth, troellai llinell o 5,000 o bobl, y 'Llinell Ddiweithdra', am filltiroedd, o Wall Street ar hyd Broadway i lawr i safle'r Confensiwn – mae diweithdra wedi cynyddu o ryw filiwn yn ystod cyfnod Bush fel Arlywydd.

Cynlluniodd grwp o artistiaid o Efrog Newydd wyl 'Dychmygwch' gyda mwy na 50 o wahanol ddigwyddiadau celf, sioeau theatr, partïon a ffilmiau. Darllenwyd enwau'r holl bobl sydd wedi cael eu lladd yn y 'Rhyfel ar Fraw', a chynhaliwyd arddangosfa stryd bwerus gyda 1,000 o sgidiau milwyr ynghyd â sgidiau sifiliaid – i gynrychioli'r rhai sydd wedi cael eu lladd yn Irac. Mewn llawer o ffyrdd, roedd y mudiad Americanaidd yn llawn dychymyg, yn gwbl gynhwysol, yn hwyl i fod yn rhan ohono, ond yn gwbl o ddifrif yn ei amcanion.

Drwy gydol fy amser yn yr UDA, yr hyn wnaeth fy nharo oedd y gwahaniaeth rhwng mudiadau blaengar yn UDA a rhai Ewrop. Yn Ewrop, mae dileu'r Gosb Eithaf yn ddeddf gwlad, cymerir yn ganiataol fod triniaeth HIV/AIDS at gael, mae hawl menyw i ddewis yn gyffredin iawn, ac mae gofal iechyd hollgynhwysol yn safonol. Ond mai datgan y pethau hyn mewn rhai rhannau o'r UDA yn golygu eich bod yn cael eich galw'n radical peryglus. Gallai trafodaeth ynglyn â rhinweddau trethiant cynyddol a budd-daliadau lles ddiweddu gyda'r geiriau, 'na, ond comiwnyddiaeth yw hynny'.

### Sgeptigiaeth

Gallwch fentro fod llawer o'r casgliad amrywiol o brotestwyr yn perthyn i'r 50% o Americaniaid a ddewisiodd beidio â phleidleisio yn yr etholiad arlywyddol diwethaf. Mae'n werth cofio'r mwyafrif distaw nad yw'n pleidleisio. Yn sicr, nid yw Kerry wedi ennill cefnogaeth y bobl yma, ac nid yw wedi estyn allan atynt am ei fod yn ofni gelyniaethu 'America ganol'. Er bod America mor rhanedig oherwydd y system ddwy-blaid, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng Kerry a Bush ar y Rhyfel a llawer o bynciau eraill. Tra bod rhai'n cefnogi Nader, mae eraill yn credu mai unig ganlyniad hynny fydd rhoi'r Ty Gwyn yn ôl i Bush.

Mae'n ymddangos i mi, fel Ewropead, fod gan Unol Daleithau America lawer o waith dal i fyny, a does bosib nad y cam cyntaf yw trechu Bush.

***Yn 2003, graddiodd Joel Kenrick o Goleg Iwerydd ger Llanilltud Fawr lle'r oedd wedi chwarae rhan flaenllaw yn yr ymgyrch yn erbyn y rhyfel ac ennill un o wobrau 'Arweinydd Ifanc' y Gymdeithas Frenhinol am ei 'gyfraniad eithriadol i fywyd y gymuned a'r gymdeithas ehangach'. Erbyn hyn, mae'n fyfyriwr yn Ysgol Economeg Llundain (LSE) ac ef yw Swyddog Amgylchedd a Moeseg Undeb Myfyrwyr LSE.***

amddiffyn taflegrau yr UD

# 'Ymladd am ofod'

**Mae CND wedi lansio adroddiad newydd: *'Fighting for Space - The developing threat of space weapons'*. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r cynlluniau brawychus i osod arfau yn y gofod ac yn egluro sut mae cefnogaeth Prydain i system "Amddiffyn Taflegrau" yr UD yn helpu'r UD yn ei nod o "dra-arglwyddiaeth lawn ar bob sbectrwm" a "rheolaeth" ar y gofod.**

Mae'r adroddiad, a sgrifennwyd gan CND Swydd Efrog, yn egluro cynlluniau'r UD i osod yr arf gweithredol cyntaf yn y gofod – yr 'NFIRE' arbrofol – yn 2005. Arf profi yw'r NFIRE sy'n cael ei weithredu tan gochl 'Amddiffyn Taflegrau' yr UD, a fydd yn casglu data ar effeithiolrwydd yr hyn mae'r UD yn ei alw'n "dechnoleg lladd cinetig" – arf wedi ei leoli ar loeren a fydd yn gallu ymosod ar wrthrychau eraill yn y gofod. Mae'r adroddiad yn manylu ar ymdrechion yn ystod y rhyfel oer i roi arfau yn y gofod, a chynigion a chynlluniau cythryblys ar gyfer arfau gofod y dyfodol. Mae'n esbonio fod yr UD yn eiddgar i reoli a thra-arglwyddiaethu ar y gofod, ac atal mynediad i neb arall i'r gofod. Bydd hyn yn achosi ymlediad arfau niwclear ar y ddaear yn ogystal â ras arfau yn y gofod.

## Dim llawer o ymddiriedaeth yng nghynlluniau taflegrau'r UD

Mae pôl piniwn ICM swyddogol a gomisiynwyd gan CND Swydd Efrog yn awgrymu gwrthwynebiad i arfau gofod a diffyg ymddiriedaeth yn natganiadau'r UD ar 'Son of Star Wars'. Holodd ICM 1,008 o bobl o wahanol grwpiau oedran, gan ofyn iddynt a fyddai'r byd yn lle mwy peryglus pe rhoid arfau yn y gofod, ac a fyddai America'n amddiffyn ei chynghreiriaid gyda system amddiffyn taflegrau. Credai 72% o'r rhai a atebodd y byddai'r byd yn lle mwy peryglus pe câi taflegrau eu lleoli yn y gofod, tra dywedai 56% nad oeddent yn credu y byddai'r Unol Daleithau yn defnyddio system amddiffyn taflegrau i ddiogelu ei chynghreiriaid. Mae CND Swydd Efrog yn dweud fod y ffigurau'n dangos gwrthwynebiad enfawr i'r rhaglen daflegrau, a fydd yn dibynnu ar y ganolfan ysbïo yn Menwith Hill a'r system dilyn trywydd taflegrau yn RAF Fylingdales.

## Dicter ynglyn â chytundeb 'amddiffyn' taflegrau cyfrinachol Prydain/UD

Mae CND wedi ymateb yn ddig iawn i'r newyddion fod Tony Blair wedi cytuno'n gyfrinachol i ganiatáu lleoli taflegrau 'Star Wars' yr UD yn Fylingdales. Defnyddir pob dull di-drais posib i ymgyrchu yn erbyn y cam hwn, a'i wrthwynebu. Mae'r penderfyniad, y trafod cyfrinachol, yn y dirgel a arweiniodd at y penderfyniad, a'r cynlluniau honedig i ddatblygu ymgyrch 'sbin' i ennill cefnogaeth y cyhoedd yn dangos mor sinigaidd yw'r llywodraeth hon. Os bydd gwaith adeiladu yn cychwyn yn y ganolfan ar gyfer y taflegrau hyn, mae CND wedi datgan mai Fylingdales fydd 'Comin Greenham Blair'.

Meddai Kate Hudson, Cadeirydd CND Prydeinig:

*"Yn union fel y gwaeth gyda'r cytundeb gwreiddiol i ganiatáu i radar Fylingdales gael ei ddefnyddio ar gyfer 'Star Wars', ac yn union fel gydag Irac, mae Tony Blair wedi gwneud cytundeb o bwys anferthol ar bolisi amddiffyn gyda'r UD y tu ôl i ddrysau caeëdig a heb drafodaeth. Dylai penderfyniad o'r pwys yma fod yn destun dadl yn y senedd ac yn y wlad. Bydd CND yn pwyso'n galed o blaid y ddadl honno a bydd yn gwneud pob peth a all i wrthwynebu lleoli taflegrau 'Star Wars' ym Mhrydain."*

Nid 'amddiffyn' yw bwriad system 'Amddiffyn' Taflegrau'r UD, ond rheoli a sicrhau safle'r Unol Daleithau fel yr unig archbwer. Mae'n bygwth achosi ymledu niwclear ac arwain at leoli arfau yn y gofod. Mae CND yn dadlau nid yn unig y dylai Prydain wrthod chwarae unrhyw ran yn y system, ond y dylai ei gwrthwynebu'n agored ar y llwyfan rhwygwladol.

heddweithredu

**Mae copïau o'r adroddiad 'Ymladd am Ofod' ar gael gan CND am £2. Ffoniwch CND Prydeinig: (0207) 700 2393 neu CND Swydd Efrog: (01274) 730 795. Mae'r adroddiad ar gael ar lein yn rhad ac am ddim, o: www.cndyorks.gn.apc.org/yspace/overview.htm**

***Gallwch weld canlyniadau llawn yr arolwg ar www.yorkshirecnd.org.uk***

**Yorkshire Campaign for Nuclear Disarmament info@yorkshirecnd.org.uk**
**(01274) 730795**
**22 Edmund Street, Bradford, BD5 0BH Swydd Efrog, Lloegr.**

# Lladrad 'radom' Menwith

Mae un o fenywod WoMenwith Hill, Annie Lee, wedi sgrifennu llythyr dig at Bennaeth Gwersyll Menwith, yr Asiantaeth Stadau Amddiffyn, a Chyngor Harrogate ynglyn â diflaniad un o'r radomau 'peli golff' o Wersyll Awyrlu'r UD yn Menwith Hill. Meddai ei llythyr: *"Ar yr 11eg o Fai 2004 cwynais fod radom 'pelen golff' wedi cael ei symud o USAF Menwith Hill heb awdurdod neu ganiatâd cyfreithiol. …"*


*"Drwg gennyf orfod eich hysbysu i mi nodi heddiw, yr 28ain o Fedi 2004, nad yw'r radom 'pelen golff' colledig wedi cael ei ddychwelyd.*

*"Mae pob strwythur ansymudol a godir yn USAF Menwith Hill o dan y gyfraith yn eiddo i Lywodraeth Ei Mawrhydi. Oni chafwyd caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, nid oes gan Lywodraeth Ffederal yr Unol Daleithau unrhyw awdurdod statudol i symud neu ymyrryd mewn unrhyw ffordd ag eiddo sy'n perthyn i LEM, er gwaetha'r ffaith mai awdurdodau'r UD a dalodd am y strwythurau a'u datblygu.*

*"Mae'n amlwg yn awr, wedi bwlch o 20 wythnos, nad yw hi'n fwriad gan awdurdodau USAF i ddychwelyd eiddo LlEM. Mae'r radom 'pelen golff' wedi cael ei ddwyn, gan dramgwyddo'r Ddeddf Ladrad.*

*"Ar sail tystiolaeth a gyflwynwyd yn Llysoedd y DU, yn achosion llys gweithredwyr heddwch a gyhuddwyd o niwed troseddol i radomau tebyg, gwyddom fod y radom 'pelen golff' yn eiddo gwerthfawr dros ben, gwerth cannoedd o filoedd o ddoleri. Mae'n ddyletswydd statudol ar Weinyddiaeth Amddiffyn y DU i weinyddu'r Stad Amddiffyn yn gyfrifol ac i fod yn atebol i'r cyhoedd Prydeinig y mae'n gweinyddu ar ei rhan. Nid yw'r gyfraith yn eithrio Gweinidogion Gwladol na Gweision Sifil rhag gorfod ufuddhau, ddim mwy na gweithredwyr heddwch. Oni ddychwelir y radom yn ddi-oed neu dalu iawndal digonol i LEM, yna bwriadwn godi cwyn o esgeulustod beius gan Weinyddiaeth Amddiffyn y DU gyda'r Ombwdsmon Seneddol."*

Rydym ninnau, ynghyd ag Anne, yn disgwyl yn eiddgar am ateb.



heddweithredu

**Womenwith Hill/ Womenwith Hill Peace Campaign c/0 8, Somerville Terrace, East Busk Lane, Otley LS21 Yorkshire, England**
**(01943) 466 825**
**FlossieMintballs@aol.com**

# Ymgyrch frys i wahardd arfau niwclear

**Ym 1970, penderfynodd pwerau niwclear y byd a bron pob gwlad arall (cyfanswm o 189 yn awr) i ddileu arfau niwclear. Roedd y penderfyniad hwn ar ffurf bargen: cytunodd gwledydd heb arfau niwclear i beidio â datblygu eu harfau niwclear eu hunain, a chytunodd y gwledydd oedd ag arfau niwclear (yr UD, y cyn-Undeb Sofietaidd, Prydain, Ffrainc a China) i gael gwared ohonynt. Mynegwyd y fargen hon yn y Cytundeb Atal Ymlediad Arfau Niwclear, neu'r CAY.**

Fodd bynnag, yn ystod y Rhyfel Oer, honnodd y gwledydd arfau-niwclear fod eu diogelwch cenedlaethol yn dibynnu ar arfau niwclear, ac maent wedi gohirio cyflawni eu rhan nhw o'r fargen. Roedd y ddogfen derfynol a fabwysiadwyd yng Nghynhadledd Adolygu'r CAY yn 2000 yn cynnwys addewid y ceid 'ymgymeriad diamwys gan y gwladwriaethau arfau-niwclear i lwyr ddileu arfogaethau niwclear' fel camau tuag at wahardd arfau niwclear, y peth mae pobl Hiroshima a Nagasaki yn ei ddymuno mor daer.

### Yr UD yn arwain y ffordd o ran bod yn anghyfrifol

Mae'r Unol Daleithau, yr unig archbwer niwclear, wedi datgan yn gyhoeddus ei bod yn barod i ddefnyddio arfau niwclear mewn ymosodiad rhagataliol 'trawiad-cyntaf', ac mae wedi datgan yn agored ei bwriad o ddatblygu arfau niwclear bychain, 'defnyddiadwy'. Mae Gogledd Korea wedi tynnu allan o'r CAY, gan ddweud ei bod yn bwriadu adeiladu a bod yn berchen ar arfau niwclear. Mae hyn oll yn amlwg yn tramgwyddo'r CAY, ac yn dod â'r cytundeb yn agos at y dibyn. Mae'n anodd gweld canlyniad positif o safbwynt byd di-niwclear.

Mae'r ymddygiad yma'n creu sefyllfa hynod o beryglus. Mae wedi ysgogi gwledydd eraill sy'n dymuno bod ag arfau niwclear a brawychwyr i ystyried ceisio cael gafael ar arfau niwclear.

Mae gwledydd, taleithiau a dinasoedd ym mhedwar ban y byd yn gwella eu mesurau diogelwch mewn ymgais i drechu brawychiaeth; mae llawer o ddinasoedd yn adolygu eu cynlluniau i ymateb i ymosodiadau braw. Er ei bod efallai'n rhesymol fod dinasoedd yn paratoi cynlluniau amddiffyn sifil ar gyfer ymosodiadau gan arfau biolegol neu gemegol, does dim modd i'r un ddinas baratoi mewn ffordd ystyrlon ar gyfer ymosodiad niwclear. Gan nad oes unrhyw amddiffyniad neu baratoad posibl ar gyfer ymosodiad niwclear, dim ond un ffordd y gallwn ein hamddiffyn ein hunain yn erbyn yr arfau anfad, anghyfreithlon hyn. Rhaid cael gwared o'r cwbl ohonyn nhw cyn gynted â phosib.

### Dyfodiad y meiri

Cafodd Ymgyrch y Meiri dros Heddwch ei lansio yng Nghynulliad Dinasyddion y Byd yn Nagasaki yn 2003. Ers hynny, mae cannoedd o feiri o bedwar ban y byd wedi arwyddo i gefnogi'r fenter. Mae'r Meiri o Gymru a arwyddodd yn ystod 2003 yn cynnwys Arglwydd Feiri Caerdydd a Chasnewydd, Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd, a meiri Cynghorau Tref Llandeilo, Y Fflint, Y Bala, Treffynnon, a Chlercod Trefi Nefyn a'r Rhyl. Fodd bynnag, roedd hynny cyn etholiadau Awdurdodau Lleol eleni.

heddweithredu:


**Da chi, cysylltwch â maer eich tre neu ddinas a/neu Cadeirydd eich Cyngor Sir, a gofyn iddyn nhw gefnogi'r ymgyrch meiri rhyngwladol yma. Mae ffurflenni 'Datganiad Meiri dros Fyd Di-Niwclear' dwyieithog, enghraifft o lythyr a gwybodaeth ar gael oddi wrth Owen Hardwicke, 35/37 Ffordd Kings Mills, Wrecsam LL13 7NH (01978) 312 375. Os cewch lwyddiant, rhowch wybod i'ch papur newydd lleol – os oes angen help arnoch, cysyllter ag CND Cymru (tud 18).**

## Gwylnos Cymdeithas y Cymod yn Nant Gwrtheyrn

**Beth am ddod i Nant Gwrtheyrn i Wylnos Cymdeithas y Cymod ar 26-27 Tachwedd 2004? Nid oes rhaid bod yn aelod o'r Gymdeithas i ddod, nac aros dros nos yn y Nant chwaith! Y tâl am yr wylnos lawn yw £45 y pen ond bydd gostyngiadau ar gyfer pobl ar incwm isel, neu sydd ddim yn aros. Bydd croeso i gyrraedd y Nant rhwng 4.00 a 6.00yh ar y nos Wener. Bydd y pryd bwyd yn dechrau am 6.00yh. Rhowch wybod i ni os byddwch am gyrraedd yn hwyr neu os oes gennych chi anghenion arbennig e.e. trafferth dringo grisiau, bwyd llysieuol.**

Trwy'r wylnos byddwn yn gwau ein trafodaethau a gweithdai gydag ein hanghenion ysbrydol a chymdeithasol. Bydd trafodaeth agored am heddwch a rhyfel ar y nos Wener, ac ar y bore Sadwrn bydd gweithdy (drwy'r Saesneg) dan ofal aelodau o Rhaglen Merched dros Heddwch IFOR sy'n dod draw o'r Iseldiroedd. Thema'r gweithdy fydd: Rôl dynion a merched yn y mudiad heddwch.

I gosfrestru cysylltwch â: ffôn (01286) 830 913, neu e-bost: post@cymdeithasycymod.org.uk.




# CAFWYD!

## arfau dinistr torfol*

**UDA: *10,640***
**Rwsia: *8,600***
**China: *400***
**Ffrainc: *350***
**Prydain: *200***
**Israel: *100 - 200***
**India: *30 - 35***
**Pakistan: *24 - 48***

**a dim ond arfau niwclear yw'r rheini*

## Beth am gael gwared ohonynt?

Ymunwch a'r Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear

***Ydw, rwyf am ymuno a CND Cymru.***

enw:....................................................................

cyfeiriad:..............................................................

.............................................. ·dpost:....................

teleffôn:................................ ebos. ..............................

Amgaeaf siec/AB am £☐ Yn daladawy i *CND Cymru*

☐ pâr cyflogedig:£16; ☐ oedolyn: £12

☐ cyflog isel/digyflog a phensiynwyr:£4; ☐ myfyrwyr a ieuenctid: £4;

Dychweler i:
Aelodaeth CND Cymru, 7, Brook Terrace, Mochdre, Drenewydd SY16 4JG
Gwefan: www.cndcymru.org Ffôn:(01550) 750 260

# dyddiadau dyddiadur

**Tachwedd 15fed: WRECSAM Cyfarfod Cynllunio WPJF** 6pm Canolfan Heddwch a Chyfiawnder, 35 Kingsmills Rd, Hightown. Cysyllter â: Genny Bove: (0845) 330 4505 genny@7times7.freeserve.co.uk

**Tachwedd 18fed: WRECSAM Grwp sgrifennu** llythyron WPJF, 7pm Eglwys y Drindod, Stryd y Brenin. Cysyllter â Genny fel uchod.

**Tachwedd 18fed ABERTAWE Cyfarfod Cyhoeddus ar Ddileu Arfau Niwclear,** 7.30pm Siaradwyr: Bruce Kent, Jill Evans ASE, Cadeirydd CND Cymru, Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas, Nos Iau. Trefnwyd gan Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear Abertawe. Cysyllter â: Loppy Garrard (01792) 561 229

**Tachwedd 20fed-Ionawr 15fed ABERYSTWYTH Arddangosfa: John Keane *'Anghyfleustra Hanes'*.** Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth. Peintiadau o Gaza a'r Lan Orllewinol ar ôl dau ymweliad gyda Chymorth Cristnogol i Israel a Phalesteina yn 2002. Cysyllter ag: Eve Ropek (01970) 622 882 www.aber.ac.uk/artscentre

**Tachwedd 22ain LLANDUDNO Cyfarfod Fforwm Heddwch Llandudno a'r Cylch,** 7.30pm Eglwys Sant Ioan, Stryd Mostyn. **Fideo a Gweithdy: *War No More*** Cysyllter â: Graham Morgan (01492) 872 599 morgan@postcards18.freeserve.co.uk

**Tachwedd 26ain-28ain PONTYPRIDD *Sut allwn ni herio'r 'drefn newydd fyd-eang' ac adeiladu Cymru'r Bobl?*** Amgueddfa Pontypridd a Chlwb y Bont, Heol Taf. Prifysgol Gomiwnyddol Cymru, pob sesiwn: £6 (£3 digyflog) Tridiau cyfan: £15 (£7 digyflog) Am fwy o wybodaeth, gweler www.welshcommunists.co.uk

**Tachwedd 26ain-27ain NANT GWRTHEYRN, GWYNEDD** Cymdeithas y Cymod, **'Gwylnos'** benwythnos. Cychwyn ar y 26ain am 4pm – pryd am 6pm. Pris llawn £45, gostyngiadau ar gyfer rhai ar gyyflog isel neu ymwelwyr dydd. Trafodaethau ar ryfel a heddwch. Gweithdy yn Saesneg gan Raglen y Cymodwragedd, "*Engendering the peace movement*". Cofrestrwch erbyn Tachwedd 12fed: (01286) 830913, ebost: post@cymdeithasycymod.org.uk.

**Tachwedd 27ain: WRECSAM Stondin WPJF** yng nghanol y dref ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Cefnogi Palesteina. 10am - 1pm (i'w gadarnhau). Angen gwirfoddolwyr, os gwelwch yn dda. Cysyllter â: gweler Tach 15fed uchod.

**Tachwedd 27ain: CROESOSWALLT 7pm. Cyngerdd dros Heddwch C**hristchurch, Castle Bank. i godi arian ar gyfer canolfan adfer yn Falluja. £5/£3.50 dan 12, rhad ac am ddim. Cysyllter â: Clymblaid Heddwch Croesoswallt (01691) 658 330 george.miller@virgin.net

**Tachwedd 27ain, CAERDYDD Gwylnos Menywod** mewn Du, hanner dydd - 1.00pm. Grisiau'r Amgueddfa Genedlaethol, Parc Cathays. Cysyllter â Jill: (01443) 473 592

**Tachwedd 27ain MANCEINION. *'Current Conflicts: Peace Movement Responses'*. Cynhadledd** y Rhwydwaith Heddwch, 10.00am - 5.30pm. Capel Undodwyr Cross Street. Arddangos gwahanol ymatebion y mudiad heddwch i wrthdaro: gwleidyddol, addysgol, cyfreithiol a gweithredu uniongyrchol. £5/£3 o flaen llaw neu ar y drws. Cysyllter â: (020) 7278 3267 nfp@gn.apc.org www.networkforpeace.org.uk Ymunwch â'r e-restr Networkingforpeace: danfonwch ebost gwag at: networkingforpeace-subscribe@yahoogroups.com

**Rhagfyr 4ydd LLANDRINDOD Cyngor CND Cymru** 11.00am-4pm croeso i aelodau a chynrychiolwyr. Cysyllter ag CND Cymru (gweler colofn Cysylltiadau)

**Ionawr 15fed CAERDYDD Cyfarfod Cynghrair Wrth-niwclear Cymru** 11.00am Glanfa Iwerydd. Cysyllter â: Hugh Richards (01982) 570 362

**Ionawr 29eg ABERYSTWYTH** Lawnsiad o A Oes Heddwch/*The Welsh Peace Project*. Y Morlan. Siaradwyr: Adam Price AS, Mehdi el Rahdi a weithdai hefyd. Prosiect newydd gan Gynefin y Werin ydy *A OesHeddwch*, sy'n ceisio rhwydweithio grwpiau heddwch yng Nghymru a thramor sy'n weithgar yn hyrwyddo heddwch a chefnogi gweithredu uniongyrchol di-drais. Manylion: Ben Gregory: (01286) 882 359 benica@gn.apc.org

**Chwefror 12fed ABATY LLANTARNAM** ger Cwmbrân, Gwent. **Cyfarfod Cyhoeddus wedi ei drefnu gan Pax Christi/Cyfiawnder a Heddwch Caerdydd/CAFOD.** Mwy o fanylion: Teresa Mitchell: (02920) 705 458.

**Chwefror 19eg Lleoliad i gael ei gadarnhau Seminar ar gynhesu byd-eang ac atebion cynaliadwy,** wedi ei threfnu gan PAWB ac CND Cymru. Manylion: Linda Rogers (01248) 490 715 neu Rod Stallard ( colofn Cysylltiadau)

**[redacted]rth 5ed Lleoliad i gael ei gadarnhau Cyngor CND Cymru** 11.00am-[illegible]. croeso i aelodau a chynrychiolwyr. Cysyllter ag CND Cymru (gweler colofn Cysylltiadau)

**CADWCH MEWN CYSYLLTIAD ar-lein gyda newyddion a digwyddiadau heddwch a chyfiawnder ledled Cymru drwy ymuno â'r e-restr JUSTPEACE – danfonwch ebost gwag at just-peace-subscribe@yahoogroups.com**

## cysylltiadau cnd cymru

www.cndcymru.org

### cadeirydd
Jill Evans MEP
(01824)709 700
jievans@europarl.eu.int

### is-gaderyddion
Rod Stallard
(01550) 750 260

David Bradley(gogledd cymru)
(01824)709 700

Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

### aelodaeth & aelodau cysylltiol
Monica Bradley
7, Brook Terrace, Mochdre,
Drenewydd SY16 4JG
(01686) 626 350
aelodaeth@cndcymru.org

### masnachu
Jan Jones
(01792)830 330

### trysorydd
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth, Y Rhondda CF39 9DE

### golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol

Jill Stallard, Nantgaredig,
Cynghordy, Llanymddyfri
SA20 0LR (01550) 750 260
jill@cndcymru.org

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch is-gadeirydd CND Cymru agosaf da chi, neu'r ysgrifennydd cyffredinol.**